

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

# DATGANIAD O GYFRIFON GRWP



AR GYFER Y FLWYDDYN A  
DDAETH I BETN 31 MARCH  
2025



Comisiynydd Heddlu a Throseddu  
Dyfed-Powys  
Police and Crime Commissioner

**Cynnwys**

|                                                                                              |           |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Adroddiad Naratif .....</b>                                                               | <b>4</b>  |
| <b>Datganiad o Gyfrifoldebau.....</b>                                                        | <b>26</b> |
| <b>Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys ..</b> | <b>27</b> |
| <b>Dadansoddiad o wariant a chyllid.....</b>                                                 | <b>32</b> |
| <b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr .....</b>                                          | <b>34</b> |
| <b>Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn .....</b>                                     | <b>36</b> |
| <b>Mantolen .....</b>                                                                        | <b>38</b> |
| <b>Datganiad Llif Arian Parod .....</b>                                                      | <b>39</b> |
| <b>Cronfa bensiwn yr heddlu .....</b>                                                        | <b>40</b> |
| <b>Nodiadau i'r cyfrifon.....</b>                                                            | <b>42</b> |
| 1. Polisïau cyfrifyddu .....                                                                 | 42        |
| 2. Addasiadau cyfnod blaenorol.....                                                          | 52        |
| 3. Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond heb eu mabwysiadu eto .....                           | 58        |
| 4. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu .....                            | 58        |
| 5. Rhagdybiaethau a ffynonellau pwysig eraill o ansicrwydd amcangyfrif.....                  | 59        |
| 6. Eitemau sylweddol o incwm a gwariant.....                                                 | 59        |
| 7. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd .....                                                  | 60        |
| 8. Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid .....                                          | 61        |
| 9. Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail ariannu o dan Reoliadau .....                    | 63        |
| 10. Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd .....                              | 66        |
| 11. Incwm a gwariant gweithredu arall.....                                                   | 73        |
| 12. Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi.....                                                | 73        |
| 13. Trethiant ac incwm grant amhenodol .....                                                 | 74        |
| 14. Eiddo, peiriannau ac offer .....                                                         | 75        |
| 15. Eiddo buddsoddi .....                                                                    | 77        |
| 16. Ymrwymïadau cyfalaf.....                                                                 | 78        |
| 17. Offerynnau ariannol .....                                                                | 78        |
| 18. Dyledwyr tymor byr.....                                                                  | 81        |
| 19. Arian parod ac arian sy'n cyfateb i arian parod.....                                     | 81        |
| 20. Asedau a gedwir i'w gwerthu .....                                                        | 82        |
| 21. Credydwyr tymor byr .....                                                                | 82        |
| 22. Darpariaethau .....                                                                      | 82        |
| 23. Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio .....                                          | 84        |

|     |                                                                 |     |
|-----|-----------------------------------------------------------------|-----|
| 24. | Datganiad llif arian – gweithgareddau gweithredu .....          | 87  |
| 25. | Datganiad llif arian – gweithgareddau buddsoddi .....           | 87  |
| 26. | Datganiad llif arian – gweithgareddau ariannu .....             | 88  |
| 27. | Gwasanaethau asiantaeth .....                                   | 88  |
| 28. | Trefniadau cydweithredol .....                                  | 89  |
| 29. | Taliad cydnabyddiaeth swyddogion .....                          | 96  |
| 30. | Costau archwilio allanol .....                                  | 101 |
| 31. | Grantiau ac incwm arall .....                                   | 102 |
| 32. | Partion cysylltiedig .....                                      | 104 |
| 33. | Gwariant cyfalaf a chyllid cyfalaf .....                        | 105 |
| 34. | Prydlesau .....                                                 | 106 |
| 35. | Colledion amhariad .....                                        | 108 |
| 36. | Buddion terfynu .....                                           | 108 |
| 37. | Cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio .....              | 109 |
| 38. | Rhwymedigaethau digwyddiadol .....                              | 117 |
| 39. | Natur a main y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol ..... | 117 |
| 40. | Cronfeydd Ymddiriedolaeth .....                                 | 120 |
|     | Geirfa termau .....                                             | 121 |

## Adroddiad Naratif

### 1. Cyflwyniad

Creodd Deddf Diwygio'r heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddwy gorfforaeth undyn o fewn pob ardal heddlu, sef y comisiynydd a'r prif gwnstabl. Mae gan bob un gylch gorchwyl statudol clir ac ar wahân. Mae'r comisiynydd yn cael ei ethol yn gyhoeddus ac felly'n cynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona.

Mae sefydlu'r ddwy gorfforaeth undyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff gynhyrchu ei ddatganiad o gyfrifon ei hun ac i'r comisiynydd gynhyrchu datganiad o gyfrifon ar gyfer grŵp a chronfa bensiwn yr heddlu. Mae'r prif gwnstabl yn cynhyrchu cyfrifon ar wahân ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Cafodd Mr Dafydd Llywelyn ei ail-ethol am drydydd tymor yn gomisiynydd ym mis Mai 2024. Dechreuodd Dr Richard Lewis swydd y Prif Gwnstabl ym mis Rhagfyr 2021, gan ddychwelyd i'r heddlu ar ôl dwy flynedd fel Prif Gwnstabl Heddlu Cleveland. Mae'r comisiynydd a'r prif gwnstabl wedi parhau i gydweithio'n adeiladol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i gymunedau ardal Dyfed-Powys. Rhoddodd Dr Richard Lewis y gorau i swydd y Prif Gwnstabl ar 16 Mehefin 2025, gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl, Ifan Charles, yn cael ei benodi'n Brif Gwnstabl Dros Dro o'r dyddiad hwnnw.

Mae'r adroddiad naratif hwn yn amlinellu'r prif amcanion, strategaethau a risgiau y mae Comisiynydd a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yn eu hwynebu. Mae'n rhoi sylwebaeth ar sut y defnyddiwyd adnoddau i gyflawni canlyniadau dymunol yn unol â'r amcanion a'r strategaethau hyn.

Ei nod yw rhoi dadansoddiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad ariannol a gweithredol. Gellir defnyddio hyn i roi cyd-destun i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys gyda'r datganiadau ariannol er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth y darlennydd. Mae'r adroddiad naratif yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Trosolwg sefydliadol a'r amgylchedd allanol
- Llywodraethu a pherfformiad
- Model sefydliadol
- Perfformiad ariannol
- Risgiau, cyfleoedd a'r rhagolygon ariannol tymor canolig
- Sail paratoi a chyflwyno

## 2 Trosolwg sefydliadol a'r amgylchedd allanol

Gan ymestyn dros 4,188 milltir sgwâr, Heddlu Dyfed-Powys yw'r heddlu mwyaf yn ddaearyddol yng Nghymru a Lloegr. Gyda 13,842 o filltiroedd o ffyrdd, dau borthladd mawr, 350 milltir o arfordir ac ardaloedd helaeth o gefn gwlad, mae'r ddaearyddiaeth yn cyflwyno heriau sylweddol o ran galw ac adnoddau.



Mae'r boblogaeth breswyl o tua 519,000 wedi'i gwasgaru ar draws ardaloedd gwledig helaeth, trefi gwyliau a threfi marchnad yn ogystal ag ardaloedd mwy poblog. Mae atyniad twristiaeth yn cyflwyno gofynion unigryw gyda nifer fawr o dwristiaid yn ymweld â threfi allweddol. Mae hyn yn cyflwyno ei oblygiadau ei hun ar gyfer troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismona ffyrdd.

Mae 41% o drigolion ardal Heddlu Dyfed-Powys yn siarad Cymraeg o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 28%. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ill dau wedi ymrwmo i sicrhau bod y gweithlu'n gynrychioliadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu fel bod aelodau'r cyhoedd, pryd bynnag y bo modd, yn cael y cyfle i gyfathrebu yn y Gymraeg.

Mae plismona yn faes polisi nad yw wedi'i ddatganoli yng Nghymru, gyda phwerau wedi'u cadw i Lywodraeth y DU yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae llawer o'r gwaith a wneir ar draws y pedair sir yn cael ei wneud, yn briodol, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, awdurdodau tân, byrddau iechyd lleol, a llawer o bartneriaid eraill gan gynnwys y trydydd sector. Mae Heddlu Dyfed-Powys, ynghyd â'r comisiynydd a'i swyddfa, hefyd yn cydweithio ar sail Cymru gyfan ar draws ystod eang o swyddogaethau plismona a chymorth busnes gan gynnwys ymateb arfog ac ymateb i fygythiad troseddau cyfundrefnol a therfysgaeth.

Mae pwysau yn parhau i godi o natur newidiol troseddau a digwyddiadau ac yn fwy diweddar o amrywiaeth gymhleth o ganlyniadau ariannol ac economaidd yn deillio o bandemig Covid-19, a waethygydd gan yr argyfwng costau byw. Mae hyn wedi arwain at bwysau sylweddol o ran costau chwyddiant a olygodd fod angen ymgorffori cynllun lleihau costau o £6.4 miliwn i fantoli cyllidebau 2023/2024 a £2.2 filiwn pellach mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2024/2025 er gwaethaf cynnydd o 6.2% i'r dreth gyngor Band D ar gyfer y flwyddyn honno.

Yn erbyn cefndir ariannol heriol, mae gofynion gweithredol yn parhau i dyfu a dod yn fwyfwy cymhleth. Mae'r heddlu'n parhau i ddatblygu'n gyflym i ymateb i risgiau, bygythiadau a newidiadau newydd mewn technoleg, ac mae llawer ohonynt wedi gofyn am ffyrdd newydd o weithio. Mae cyflwyno staff ychwanegol yng Nghanolfan Gyfathrebu'r heddlu, a ariannwyd drwy gynydd yn y praesept, ynghyd â gweithredu system deleffoni newydd ym mis Tachwedd 2024, wedi arwain at welliannau mewn amseroedd ateb a gostyngiad mewn cyfraddau rhoi'r gorau i alwadau nad ydynt yn rhai brys. Tynnwyd sylw at hyn yn flaenorol fel maes pryder i'r heddlu. Galluogodd y cynnydd yn

y praecept yn 2024/2025 yr heddlu hefyd i gynnal Rhaglen Cyswllt Ysgolion a chapasiti Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr heddlu (SCCH) er gwaethaf gostyngiadau sylweddol mewn grantiau Llywodraeth Cymru. Roedd cyfnod yr haf yn heriol o ran y galw, ac roedd hyn yn waeth oherwydd yr angen i ddarparu cymorth i heddluoedd eraill gyda'r ymateb cenedlaethol i derfysgoedd a phrotestiadau yn dilyn llofruddiaethau Southport a'r rhyfel yn Gaza.

Mae'r comisiynydd yn gyfrifol am osod blaenoriaethau strategol ar gyfer plismona yn ardal Heddlu Dyfed-Powys drwy lunio Cynllun Heddlu a Throsedd, gan sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a bod safonau priodol yn cael eu cyflawni a'u cynnal.

Ar ôl ymgynghori helaeth, lansiodd y comisiynydd Gynllun Heddlu a Throsedd newydd ym mis Chwefror 2025 yn cwmpasu'r cyfnod 2025 i 2029. Y weledigaeth gyffredinol yw gwella ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Dyfed-Powys a'r system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd. Mae'r cynllun yn nodi tair blaenoriaeth a chwe egwyddor arweiniol a fydd yn sail i'r ddarpariaeth:

| Blaenoriaethau                           | Egwyddorion Arweiniol                                 |
|------------------------------------------|-------------------------------------------------------|
| Cefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth   | Gweithio mewn partneriaeth                            |
| Cefnogi cymunedau diogel trwy atal niwed | Ymdrechion a rennir ar gyfer plismona yng Nghymru     |
| Cefnogi system gyfiawnder fwy effeithiol | Llywodraethu ac atebolrwydd                           |
|                                          | Cynaliadwyedd                                         |
|                                          | Bod yn llais y gymuned                                |
|                                          | Dull wedi'i deilwra, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn |

Ar ôl ymgysylltu sylweddol â'r gweithlu, partneriaid a'r cyhoedd, gosododd y Prif Gwnstabl flaenoriaethau sefydliadol ym mis Ebrill 2022. Mae ymrwymiad i'r blaenoriaethau cyflenwol hyn yn aros yr un fath, gan roi cyfle gwirioneddol i weithio'n wahanol i gyflawni mwy, ac ar yr un pryd sicrhau cysondeb ac eglurder pwrpas.

| Blaenoriaethau                                                                                                |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Gwneud ardal Heddlu Dyfed-Powys yn rhywle gelyniaethus i'r rheini sy'n delio mewn cyffuriau                   |
| Dileu cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu                                                                 |
| Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol difrifol, ac erlid troseddwy yn ddi-baid |

Mae strategaethau a chynlluniau cyflawni manwl wedi'u datblygu i ategu a chefnogi cyflawniad y Cynllun Heddlu a Throsedd a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. Mae'r cynlluniau hyn yn ystyried yr amgylchedd gweithredol ac ariannol heriol, yr angen am fuddsoddiad parhaus i gefnogi gwasanaethau cynaliadwy a'r gofyniad i baru adnoddau ac asedau i ddiwallu gofynion a deddfwriaeth sy'n datblygu sydd wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

### 3 Llywodraethu a pherfformiad

#### Llywodraethu

Mae'r trefniadau llywodraethu y mae'r comisiynydd a'r prif gwnstabl yn gweithredu'n unol â nhw yn gymhleth. Mae'r rhain wedi'u hadolygu'n feirniadol dros y blynyddoedd diwethaf ac maent yn parhau

i gael eu cryfhau a'u symleiddio er mwyn sicrhau rheolaeth, goruchwyliaeth a chraffu sefydliadol effeithiol.

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol ar y Cyd yn nodi'r egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau ar gyfer llywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd ac ar wahân, ac mae hyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.

Mae gan y comisiynydd a'r prif gwnstabl gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Mae'r comisiynydd yn statudol gyfrifol am sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol a dwyn y prif gwnstabl i gyfrif am arfer ei swyddogaethau. Mae'r comisiynydd yn gyfrifol am osod cyllideb flynyddol yr heddlu (gan gynnwys lefel y praesept) a sicrhau bod cyfrif am arian cyhoeddus a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae annibyniaeth weithredol y prif gwnstabl wedi'i diogelu mewn deddfwriaeth. Mae gan y prif gwnstabl gyfrifoldeb statudol am reoli, cyfeirio a darparu gwasanaethau plismona gweithredol a ddarperir gan yr heddlu. Mae'r prif gwnstabl yn atebol yn ôl y gyfraith am arfer pwerau'r heddlu ac i'r comisiynydd am ddarparu gwaith plismona effeithlon ac effeithiol, rheoli adnoddau a gwariant yr heddlu. Mae'r prif gwnstabl yn dal ei swydd o dan y goron ac yn gyfrifol am gynnal heddwch y brenin.

Cyhoeddir datganiad llywodraethu blynyddol ar wahân, ac mae hwn yn rhoi mwy o fanylion am yr amgylchedd rheolaeth fewnol a gwerthusiad o'r trefniadau llywodraethu yn erbyn y saith egwyddor ar gyfer cyflawni llywodraethu da. Disgwylir i bob parti gydymffurfio â'r saith egwyddor a nodir yn y Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan, yn ogystal â'r cod moeseg a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona.

## Perfformiad

Parhaodd y comisiynydd i fuddsoddi mewn amrywiaeth o wasanaethau yn ystod 2024/2025 i gefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd:

- Lanswyd gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr newydd ym mis Tachwedd 2024, gyda Chymorth i Ddioddefwyr yn darparu'r gwasanaeth a ailgomisiynwyd. Comisiynwyd hyn ar y cyd ochr yn ochr â Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, gan ddarparu darpariaeth gyson i ddioddefwyr ar draws dwy ardal yr heddlu. Mae'r comisiynydd yn awyddus i barhau i weithio tuag at ddarpariaeth gwasanaeth Cymru gyfan. Mae'r gwasanaeth newydd yn disodli Goleudy a bydd yn sicrhau mynediad parhaus at gymorth annibynnol i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan drosedd, waeth a yw wedi cael ei ripoortio i'r heddlu ai peidio. Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn sicrhau y gall dioddefwyr ar draws ardal yr heddlu gael mynediad at gymorth cyson o safon sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion. O gymorth ar unwaith i gymorth tymor hwy i helpu i lywio drwy'r system cyfiawnder troseddol, mae'r gwasanaeth newydd yn adlewyrchu'r ymrwymiad i roi dioddefwyr yn gyntaf. Mae'r gwasanaeth hefyd, am y tro cyntaf, yn cynnig cymorth wedi'i deilwra'n uniongyrchol i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan drosedd.
- Parhaodd y gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig llwyddiannus a gomisiynwyd ar y cyd ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel i gynorthwyo nifer cynyddol o ddioddefwyr yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu ochr yn ochr â'r pedwar awdurdod lleol yn ardal Dyfed-Powys, ac mae hyn wedi symleiddio'r ddarpariaeth cymorth i achosion risg uchel. Mae'r lefel ychwanegol o

fuddsoddiad a ddarparwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i hystreyn tan ddiwedd mis Mawrth 2026 ac yn y cyfamser mae'r comisiynydd yn parhau i lobïo dros ymestyn a chynyddu'r cyllid hanfodol hwn. Mae'r comisiynydd hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac asiantaethau partner i sicrhau bod cyllid ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei flaenoriaethu gan yr asiantaethau hynny sydd â dyletswydd statudol, gan alluogi defnyddio grant Llywodraeth Cymru yn fwy hyblyg i gefnogi blaenoriaethau lleol.

- Parhaodd y comisiynydd i weithio gydag asiantaethau partner ar lefel Cymru gyfan i wella'r ymateb i ddioddefwyr cam-drin rhywiol. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod safleoedd lle darperir gwasanaethau meddygol aciwt wedi'u hachredu i safonau'r Sefydliad Rhyngwladol er Safoni (ISO), gyda dyddiad cau o fis Hydref 2025 ar gyfer cyflawni achrediad. Mae'r comisiynydd wedi gweithio'n agos gyda chymheiriaid i hyrwyddo'r gydberchnogaeth rhwng plismona ac iechyd ac mae strwythur llywodraethu diwygiedig yn cael ei sefydlu i oruchwyllo'r camau sy'n ofynnol i gyflawni'r model. Mae'r comisiynydd wedi comisiynu gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Rhywiol ar y cyd â heddluoedd De Cymru a Gwent. Mae'r gwasanaeth newydd yn darparu darpariaeth gyson i ddioddefwyr gyda chefnogaeth arbenigol i lywio'r system cyfiawnder troseddol.
- Parhaodd y comisiynydd i chwarae rhan annatod o fewn Byrddau Cynllunio Ardal, sy'n gyfrifol am ddarparu atebolrwydd, llywodraethu a gwaith craffu ar gynllunio strategol, perfformiad a rheolaeth ariannol ar gamdefnyddio sylweddau. Mae Byrddau Cynllunio Ardal wedi'u sefydlu ar ôl troed bwrdd iechyd, gyda'r aelodaeth yn cynnwys yr awdurdodau cyfrifol o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae'r comisiynydd wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i graffu ar ddarpariaeth y gwasanaeth atal a thrin haen 2, gan gynnwys gwerthuso'r model presennol a chyllidebau diwygiedig i gydnabod y pwysau a brofir gan ddarparwyr gwasanaethau ar draws oes aml-flwyddyn y contract presennol. Bydd y model gwasanaeth a'r blaenoriaethau'n cael eu mireinio ymhellach yn barod ar gyfer ymarfer ailgomisiynu i gyd-fynd â diwedd y cyfnod estyniad sydd ar waith ar hyn o bryd tan fis Mawrth 2027.
- Mae'r comisiynydd wedi ailgomisiynu'r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr llwyddiannus, gan ddarparu asesiad a chymorth cyfannol i ddargyfeirio unigolion o'r system cyfiawnder troseddol. Roedd y darparwr gwasanaeth presennol yn llwyddiannus ac mae'n dod â chyfnod hir o ddarpariaeth gyson ac arbenigedd i'r ddarpariaeth ar draws yr heddlu. Mae'r gwasanaeth wedi'i hen sefydlu mewn unedau dalfa ac mae wedi ehangu i ymgorffori'r polisi cyffuriau diwygiedig o fewn Heddlu Dyfed-Powys, gan arwain at gynydd sylweddol mewn atgyfeiriadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Bydd datblygiadau yn ystod 2024/2025 yn sicrhau bod y cynllun hefyd wedi'i baratoi ar gyfer cychwyn y rhaglen CARA (rhoi rhybuddiad ar gyfer cam-drin mewn perthynas) sy'n galluogi dioddefwyr digwyddiadau domestig risg safonol i elwa o gymorth y gwasanaeth Dargyfeirio Troseddwyr. Bydd hyn i'w weld yn ystod 2025/2026 mewn partneriaeth â darparwr cam-drin domestig arbenigol.
- Cafodd y gwasanaeth trafod a chymorth cyfryngu annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod ar goll ac mewn perygl o gael eu herlid neu brofi camfanteisio ei ailgomisiynu'n llwyddiannus hefyd yn barod ar gyfer mis Ebrill 2025. Bydd y gwasanaeth yn ehangu i ddatblygu cysylltiadau hanfodol â gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal eraill, gan gynnwys cysylltiadau agos â'r Rhaglen Gyswilt Ysgolion. Bydd hyn yn sicrhau

y gellir ymgorffori tueddiadau a gwersi a ddysgwyd yn y cwricwlwm, gan gyflwyno negeseuon atal cyfoes a lleol i bobl ifanc.

- Parhaodd y comisiynydd i ddarparu cyllid i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol yn ardal Dyfed-Powys i ymgymryd ag ymarfer adferol gyda dioddefwyr ifanc y rhai sydd wedi dioddef gweithredoedd troseddwr ifanc. Daeth y trefniant ariannu aml-flwyddyn presennol i ben ym mis Mawrth 2025 ac yn ystod y flwyddyn mae tîm y comisiynydd wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid cyfiawnder ieuenctid i lywio dyfodol y cyllid hwn. Mae ymarfer adferol yn rhan hanfodol o ddarparu gwasanaethau ac yn sicrhau bod hawliau dioddefwyr yn cael eu diogelu yn unol â Chod Ymarfer i Ddioddefwyr.
- Gan ddysgu o adborth Panel Cynghori Goroewyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Canolbarth a Gorllewin Cymru, ynghyd â nifer yr achosion risg uchel sy'n cael eu rheoli gan Heddlu Dyfed-Powys, buddsoddodd y comisiynydd mewn cynllun peilot sy'n darparu cefnogaeth arbenigol i ddioddefwyr stelcio. Mae Paladin yn darparu gweithwyr achos ymgynghorol stelcio annibynnol i gefnogi dioddefwyr yn uniongyrchol a hefyd i ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant i ddarparwyr arbenigol eraill a allai fod â chleientiaid sy'n dioddef erledigaeth cymhleth neu luosog. Bydd y cynllun peilot yn rhedeg am 12 mis i ddechrau gyda'r potensial i'w ymestyn am 12 mis pellach.
- Yn ystod 2024/2025 parhaodd y comisiynydd i ariannu cynllun peilot ar gyfer gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr ffyrdd a ddarparwyd gan Brake, yr elusen ffyrdd genedlaethol. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd sydd wedi colli rhywun oherwydd gwrthdrawiadau traffig ffyrdd angheuol, gan gynnwys cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos ochr yn ochr â swyddogion cyswllt teuluol sy'n cynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i deuluoedd. Mae llwyddiant y cynllun peilot wedi arwain y comisiynydd i gaffael gwasanaeth yn y dyfodol yn ffurfiol mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru. Cynhaliwyd ymarfer tendro drwy ran olaf 2024/2025 ac amcangyfrifir y bydd y contract newydd ei ddyfarnu yn dod i rym ym mis Gorffennaf 2025. Bydd y gwasanaeth peilot yn parhau i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi'n llawn yn ystod y cyfnod trosglwyddo i ddarpariaeth gwasanaeth ffurfiol.

O safbwynt yr heddlu, mae perfformiad yn erbyn amcanion allweddol yn cael ei fonitro a'i adrodd yn lleol ar bob lefel o fewn y sefydliad yn ogystal ag mewn digwyddiadau perfformiad yr heddlu misol a chyfarfodydd y Bwrdd Plismona bob pythefnos.

Yn ystod 2024/2025, cofnodwyd 36,776 o droseddau, o'i gymharu â 36,674 yn 2023/2024 - cynnydd o 0.28% (102), fel y dangosir yn y tabl canlynol:

| Troseddau a gofnodwyd yn ôl math o drosedd | 2023–2024     | 2024–2025     | Gwahaniaeth | Gwahaniaeth  |
|--------------------------------------------|---------------|---------------|-------------|--------------|
|                                            | Troseddau     | Troseddau     | Troseddau   | %            |
| Trais yn erbyn yr unigolyn                 | 17,597        | 17,063        | (534)       | (3.03%)      |
| Dwyn                                       | 4,787         | 4,581         | (206)       | (4.30%)      |
| Llosgi bwriadol a difrod troseddol         | 4,043         | 3,971         | (72)        | (1.78%)      |
| Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus       | 4,173         | 3,901         | (272)       | (6.52%)      |
| Troseddau cyffuriau                        | 1,587         | 1,771         | 184         | 11.59%       |
| Troseddau rhyw                             | 1,459         | 1,701         | 242         | 16.59%       |
| Bwrgleriaeth                               | 1,279         | 1,558         | 279         | 21.81%       |
| Troseddau amrywiol                         | 745           | 1,007         | 262         | 35.17%       |
| Troseddau cerbyd                           | 628           | 717           | 89          | 14.17%       |
| Meddiant arfau                             | 298           | 409           | 111         | 37.25%       |
| Lladrad                                    | 78            | 97            | 19          | 24.36%       |
| <b>Cyfanswm</b>                            | <b>36,674</b> | <b>36,776</b> | <b>102</b>  | <b>0.28%</b> |

Mae'r flwyddyn wedi gweld gwelliannau mewn arferion cofnodi troseddau ochr yn ochr â newidiadau i Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref ac mae'r gwaith o sicrhau cydymffurfiaeth â safon genedlaethol cofnodi troseddau a Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth gofnodi troseddau. Mae'r newidiadau i'r rheolau cyfrif, er enghraifft, yn cynnwys adfer y rheol prif drosedd ar gyfer troseddau ymddygiadol i ganiatáu canolbwyntio ar y drosedd sy'n cael y mwyaf o effaith, a chynnyddu'r trothwy ar gyfer troseddau'n ymwneud â chyfathrebu maleisus i sicrhau eu bod ond yn cael eu cofnodi pan fydd trothwy cyflawni trosedd yn cael ei chyrraedd, yn hytrach na phan fydd rhywun wedi'i dramgwyddo gan rywbeth a bostiwyd ar gyfryngau cymdeithasol, er enghraifft.

O ystyried troseddau y neilltuwyd canlyniad iddynt (wedi'u cwblhau) yn 2024/2025, rhoddwyd canlyniad i 23,186 allan o 36,776 (63.05%) o droseddau o fewn 30 diwrnod i adrodd amdanynt. Mae hyn yn cymharu â 18,610 allan o 36,674 o droseddau (50.74%) yn 2023/2024. Gweithredwyd system rheoli cofnodion newydd ym mis Mai 2023, sydd wedi gwella amseroedd prosesu. Mae cyfraddau canlyniadau cadarnhaol yn dibynnu ar gyfranogiad dioddefwyr ac ansawdd ymchwiliadau i ddwyn troseddau o flaen eu gwell. Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, mae'r gyfradd canlyniadau cadarnhaol wedi amrywio rhwng 14% a 18% bob mis.

Mae'r heddlu yn parhau i gynnal gwasanaeth telefoni 999 effeithiol ac effeithlon. Mae galwadau 999, yn anochel, yn cael eu blaenoriaethu uwchlaw popeth arall gan eu bod yn cynrychioli ceisiadau brys am gymorth pan fo amser yn hanfodol. Gan fyfrio ar ddata a adroddwyd yn genedlaethol yn ystod y cyfnod 2024/2025, amser ymateb cyfartalog yr heddlu oedd 8.08 eiliad. O ran perfformiad yr heddlu, rhaid rhoi sylw i'r amser oedi – yr amser a gymerir i alwad gael ei throsglwyddo o gyfnewidfa BT i Ganolfan Reoli'r heddlu sydd wedi'i gynnwys yn y data hwn. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal cofnod perfformiad sy'n rhoi sicrwydd, yn ystod y cyfnod 2024/2025, bod 84.2% o alwadau 999 wedi cael eu hateb mewn llai na 10 eiliad.

Caffaelodd a gweithredodd yr heddlu system deleffoni a radio newydd a ddechreuodd weithredu ym mis Tachwedd 2024. Mae hyn wedi darparu data mwy cywir ar gyfer cymhariaeth genedlaethol, ac mae ei lwybro deallus o alwadau a gyflwynir i weithredwyr amryddawn wedi sicrhau bod pob galwad bellach yn cael ei hateb yn fwy amserol gan wella cyflymder cyfartalog yr ateb a galluogi'r heddlu i

ymateb yn well i'r cyhoedd. Ers mis Ionawr 2025, mae'r heddlu wedi cyrraedd dangosydd perfformiad allweddol cenedlaethol 999 y Swyddfa Gartref o ateb 90% o'r holl alwadau 999 a gyflwynwyd i'r heddlu o fewn 10 eiliad, rhywbeth yr oedd yn ei chael hi'n anodd ei wneud yn 2024. Er mwyn dangos y newid gwirioneddol yn y ffordd y darperir gwasanaethau 999, ym mis Ebrill 2025 roedd Heddlu Dyfed-Powys yn bumed yn y wlad am ei gyflymder ateb cyfartalog (a gofnodwyd fel 4.95 eiliad), ac yn seithfed am ei fesur dangosydd perfformiad allweddol 90% (a gofnodwyd fel 94.9%), a chyhoeddwyd y data hwn yn agored ar wefan Police.UK.

Mae'r cyhoedd i raddau helaeth yn ystyried y gwasanaeth 101 yn sianel gyswllt ar gyfer riportio digwyddiadau nad ydynt yn rhai brys i'r heddlu (yn gyffredinol, galwadau nad ydynt yn cyfiawnhau galwad 999). Mae'r cyhoedd yn cael dewis tri phrif opsiwn ar y pwynt cyswllt, sef:

- Opsiwn 1 - adrodd am ddigwyddiad newydd,
- Opsiwn 2 - ffonio i ymholi am ddigwyddiad sydd eisoes wedi'i riportio,
- Opsiwn 3 - unrhyw ymholiad arall.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r heddlu wedi llwyddo i leihau'r amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i ateb ei alwadau am wasanaeth nad ydynt yn rhai brys o 391 eiliad (6.31 munud), fel y'i cofnodwyd ym mis Ebrill 2024, i 47 eiliad ym mis Mawrth 2025. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 88% yn yr amser ateb ac mae galwyr wedi bod yn llai tebygol o adael eu galwadau wrth giwio, sydd wedi'i adlewyrchu'n gadarnhaol yn y gyfradd rhoi'r gorau i alwadau.

Cofnodwyd lefelau rhoi gorau i alwadau'r gwasanaeth hwn fel 33% ym mis Ebrill 2024, ac mae hyn wedi gostwng 70% dros y flwyddyn i gyfradd rhoi'r gorau o 9.7% fel y'i cofnodwyd ym mis Mawrth 2025, gyda gostyngiadau pellach i'w gweld ym mis Ebrill 2025, lle cofnodwyd y gyfradd rhoi'r gorau i alwadau yn 5.9%. Mae hyn wedi'i briodoli i nifer o fesurau ystyriol a gyflwynwyd yn yr hydref, sef gweithredu system deleffoni newydd, buddsoddiad sylweddol mewn lefelau staffio, newidiadau i'r model gweithredu presennol gan gynnwys cyflwyno rhaglen hollgymwys gyda'r bwriad o gryfhau cydnherthedd ar draws yr adran, yn ogystal â chyflwyno rota a phatrwm shifftiau newydd sy'n cynyddu nifer y staff ar ddyletswydd ar unrhyw adeg yn unol â phroffil y galw.

Mae'r heddlu'n cynnig gwasanaeth cyswllt digidol 24/7 sy'n cynnwys y platfform adrodd ar-lein cartref ar-lein sengl a chyfathrebu cyfryngau cymdeithasol dwyffordd. Yn ystod 2024/2025, cyflwynwyd cyfanswm o 18,490 o ffurflenni cartref ar-lein sengl, cynnydd o 12.4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (ffynhonnell data: Knowledge Hub). Mae'r galw hwn yn cynyddu'n barhaus gyda chategorïau a gwasanaethau ffurflenni newydd yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd. O ran amrywiol sianeli cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu e-bost, mae data'n dangos, yn ystod 2024/2025, y cynhaliwyd cyfanswm o 2,602 o sgysiau drwy gyfryngau cymdeithasol (ffynhonnell data: Digital Public Contact), gostyngiad o 44% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (ffynhonnell ddata: Knowledge Hub). Er nad yw'n gwbl fesuradwy eto, mae cyswllt e-bost uniongyrchol tua 200 o negeseuon e-bost y dydd.

### **Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi**

Arolygwyd yr heddlu ddiwethaf o dan raglen arolygu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu 2023-2025 gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn 2023 a chafodd ei raddio gan yr arolygiaeth yn 'ddigonol' am ymchwilio i droseddau, atal troseddau, pwerau'r heddlu a thrin y cyhoedd, ymateb i'r cyhoedd, rheoli troseddwyr ac arweinyddiaeth a rheolaeth yr heddlu. Roedd meysydd 'yr oedd angen eu gwella' yn ymwneud ag amddiffyn pobl fregus a datblygu gweithlu cadarnhaol. Ar y cyfan, roedd yr arolygiaeth yn fodlon ar y

rhan fwyaf o agweddau perfformiad yr heddlu, gan gydnabod bod cyflwyno system rheoli cofnodion newydd Niche ar gyfer cofnodi troseddau yn ystod y cyfnod arolygu wedi effeithio ar amseroldeb rhai gweithgareddau wrth i swyddogion a staff addasu i ffyrdd newydd o weithio. Nododd yr arolygiaeth hefyd safonau trawiadol wrth ymchwilio i droseddau mewn ffordd effeithiol a bod yr heddlu'n ymateb yn brydlon i alwadau am wasanaeth ac yn blaenoriaethu'n effeithiol.

Mae'r heddlu wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella a amlygwyd o arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu yn 2023, a bellach ceir gwell gwaith craffu ar bob digwyddiad o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu, sydd bellach yn cynnwys cynnal adolygiadau eilaidd o bob asesiad cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu, yn hytrach na chynnal adolygiadau ar achosion risg uchel yn unig. Mae'r heriau o ran galw sy'n gysylltiedig â'r newid hwn wedi cael eu hateb drwy fuddsoddi mewn staff ychwanegol i gynnal adolygiadau a chreu swydd cydlynnydd stelcio newydd a swyddog gorchmynion sifil newydd. Yn ogystal, mae'r heddlu wedi darparu hyfforddiant i swyddogion a staff mewn rolau arbenigol ym maes bregusrwydd ac wedi gwella llywodraethu a monitro perfformiad i warchod pobl fregus yn effeithiol. Yn wir, mae pob un o'r meysydd i'w gwella sy'n ymwneud ag amddiffyn pobl fregus wedi'u cymeradwyo fel rhai sydd wedi'u cyflawni, ac mae gwirio gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn yr arfaeth.

Nododd yr arolygiaeth bod 'angen gwella' rheoli anghenion gweithredol yn effeithiol wrth gefnogi lles swyddogion a staff. Roedd y pryderon yn cynnwys swyddogion a staff mewn rolau risg uchel a'r rhai sy'n delio â digwyddiadau trawmatig gyda'r argymhelliad bod angen i'r heddlu wella ei ddealltwriaeth o anghenion lles swyddogion a staff. Mae'r heddlu wedi cychwyn rhaglen sylweddol o newid trwy gynnal adolygiad o'r heddlu a'r model gweithredu, i gryfhau timau gwasanaeth ymateb mewn lifrau yr heddlu wrth wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd sefydliadol. Mae hyn yn gwella darpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd a dioddefwyr tra'n gwella lles, llesiant a chyfraddau cadw swyddogion a staff yr heddlu ar yr un pryd. Mae'r heddlu hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau iechyd a llesiant galwedigaethol, gan ganolbwyntio ar ddarparu ystod ehangach o fesurau llesiant, gan gynnwys cymorth ar gyfer rolau risg uchel, a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i'r holl staff a swyddogion ar draws yr heddlu.

Tynnwyd sylw at bryderon eraill, a dyrannwyd meysydd i'w gwella, ynghylch cyfraddau rhoi'r gorau i alwadau nad ydynt yn rhai brys, yn ogystal â deall risg a galw o fewn digwyddiadau sy'n aros am ymateb. Mae'r heddlu wedi cyflwyno cyfarfod rheoli dyddiol newydd, sy'n canolbwyntio ar nifer galwadau a pherchnogaeth digwyddiadau blaenoriaeth ymateb graddau is, sydd wedi lleihau nifer y digwyddiadau mewn ciwiau heb eu monitro. Yn ogystal, mae prosesau newydd o gofnodi troseddau a adroddwyd i'r heddlu ar gam cynharach wedi lleihau nifer y digwyddiadau sy'n aros am ymateb. Drwy gyllid ychwanegol gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, mae'r heddlu hefyd wedi cyflwyno system gyswllt teleffoni a radio newydd, wedi cynyddu staffio ac mae ganddo fodel gweithredu newydd a hollgymhwysedd o fewn Canolfan Gyfathrebu'r heddlu. Mae hyn wedi galluogi'r heddlu i leihau cyfraddau rhoi'r gorau i alwadau 101 yn sylweddol dros y 12 mis diwethaf, a bellach mae'n cyflawni targedau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Mae'r heddlu wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yn y ddwy enghraifft hyn o feysydd i'w gwella ac maen nhw wedi'u cymeradwyo fel rhai sydd wedi'u cyflawni ac mae gwirio pellach gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn yr arfaeth.

Tynnodd arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu 2023-2025 sylw hefyd at yr angen i'r heddlu gyflawni canlyniadau priodol i ddioddefwyr yn gyson, a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Cod Dioddefwyr. Fel y nodwyd yn flaenorol, er bod yr arolygiaeth wedi nodi safonau trawiadol wrth ymchwilio i droseddau mewn modd effeithiol, nodwyd bod sicrhau bod

contract dioddefwr yn cael ei gwblhau lle bo'n briodol yn faes i'w wella. Mewn ymateb i'r argymhelliaid, mae'r heddlu'n adolygu prosesau cyfredol ac yn cwmpasu opsiynau a datrysiadau technoleg trwy ddatblygu templedi cyson ar gyfer dioddefwyr a thystion, a chraffu ac archwilio'n well i sicrhau bod yr heddlu'n cydymffurfio â gofynion y Cod Dioddefwyr.

Mae'r heddlu'n cynnal dull effeithiol o ddatrys problemau, gan weithio gydag asiantaethau sector cyhoeddus eraill sy'n canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amddiffyn pobl fregus, gyda threfniadau effeithiol ar waith i amddiffyn pobl fregus. Mae'r heddlu'n gweithio i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella er mwyn cynyddu gwelededd a hygyrchedd swyddogion plismona bro a gwella'r ffordd y mae'n cyfathrebu â phobl leol, ar ôl ymrwymo i weithredu ap cyfathrebu newydd i wella'r gallu i gysylltu â chymunedau. Mae gwelliannau mewn prosesau, adrodd a chofnodi stopio a chwilio hefyd wedi'u cyflwyno a'u gweithredu, gan gynnwys dangosfyrddau Power BI newydd a ddefnyddir yn fewnol, a phanel craffu newydd sy'n monitro'r defnydd o stopio a chwilio ar draws yr heddlu.

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o'r galw ym mhob maes, gan sicrhau bod ganddo'r capasiti a'r gallu i reoli'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol yn y modd mwyaf effeithlon. Mae'r comisiynydd yn darparu gwelededd a sicrwydd allanol drwy'r Panel Sicrhau Ansawdd, a sefydlwyd i graffu ar ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd. Mae'r panel yn fforwm tryloyw ac annibynnol sy'n gweithredu ar ran cymunedau Dyfed-Powys. Mae'r gwaith craffu allanol hwn wedi'i wella i fynd i'r afael â maes arall i'w wella a amlygwyd mewn perthynas â chraffu annibynnol ar ddefnydd grym swyddogion.

Mae'r heddlu wedi mynd i'r afael â maes i'w wella o ran sicrhau bod dealltwriaeth gynhwysfawr o sut mae buddsoddi mewn systemau TG yn gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Canfu'r arolygiaeth hefyd fod cynlluniau ariannol yr heddlu, gan gynnwys y rhaglen fuddsoddi, yn fforddiadwy a byddant yn helpu'r heddlu i fodloni gofynion y dyfodol o ran cyflawni Rhagoriaeth Ariannol mewn Plismona.

Yn ystod y cyfnod ariannol hwn, mae'r heddlu hefyd wedi bod yn destun argymhellion eraill o weithgarwch arolygu thematig Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi a hefyd cyfranogiad uniongyrchol mewn arolygu. Roedd yr heddlu yn rhan o Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant ar gyfer ardal Cyngor Sir Penfro ym mis Mawrth 2025. Mae'r adroddiad terfynol i fod i gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni, fodd bynnag, roedd yr adborth cychwynnol yn gadarnhaol iawn i'r heddlu o ran yr ymateb cychwynnol, nodi ac ymwybyddiaeth o fregusrwydd, rhannu gwybodaeth yn amserol ac yn effeithiol â phartneriaid, a'r llywodraethu a monitro perfformiad cryf sydd ar waith. Cytunodd yr heddlu hefyd i fod yn heddlu peilot ar gyfer arolygiad thematig ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EF ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi o warediadau tu allan i'r llys ar gyfer ieuenctid ym mis Tachwedd 2024.

Mae'r heddlu yn paratoi ar gyfer arolygiad effeithlonrwydd, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu nesaf gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi a ddisgwylir ym mis Mai 2026 ac mae wedi ymateb i argymhellion a ddyrannwyd o weithgarwch arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, gyda naw maes i'w gwella a 15 o argymhellion wedi'u cymeradwyo'n fewnol o fewn 12 mis y cyfnod ariannol diwethaf.

## Datganiad Rheoli'r Heddlu

Cyflwynodd y prif gwnstabl Ddatganiad Rheoli'r Heddlu diweddaraf (2024) i Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ym mis Mai 2025, gan ddarparu asesiad wedi'i ddiweddarau o gapasiti gweithredol Heddlu Dyfed-Powys yn erbyn y galw presennol a'r galw disgwyledig yn y dyfodol. Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu yn ymwybodol o sawl ffactor o fewn yr heddlu gan gynnwys:

- Blaenoriaethau a osodwyd gan y prif gwnstabl (themâu cam-drin domestig, cyffuriau, treisio a throseddau rhyw).
- Cyfeirir at ail flwyddyn ein Rhaglen Adolygu'r Heddlu drwy gydol y ddogfen, gyda gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i gefnogi, herio a hwyluso nodi gwelliannau busnes gweithredol, gan fod yn ymwybodol o ymdrechion parhaus i gyflawni targedau arbedion a nodwyd yn bennaf yn y flwyddyn gyntaf.
- Parhau i symud i fframwaith perfformiad a gefnogir gan ddangosfwrdd, yn dilyn y newid i system rheoli cofnodion Niche.
- Y Gofyniad Plismona Strategol, yn dilyn cyhoeddiad wedi'i ddiweddarau yn 2023 i gynnwys trais yn erbyn menywod a merched.

Mae Rhaglen Adolygu'r Heddlu yn ymwybodol o bob un o'r ffactorau uchod a'r effaith y maent wedi'i chael ar yr heddlu cyfan. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am risgiau allweddol ac unrhyw risgiau newydd sydd wedi dod i'r amlwg. Mae pob adran maes busnes o Ddatganiad Rheoli'r Heddlu yn ystyried cyflwr, perfformiad, cyfansoddiad, capasiti, gallu, llesiant a diogelwch cyflenwad gweithlu'r heddlu ac asedau eraill yn erbyn gofynion galw cyfredol a rhai y gellir eu rhagweld yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu mewn pedwar cam sy'n rhan o ganllawiau Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi a byddant bellach yn cefnogi rhesymeg cynllunio busnes a gwneud penderfyniadau, fel rhan o'r cylch cynllunio a sicrwydd blynyddol ehangach.

Nododd Datganiad Rheoli'r Heddlu nifer o themâu a blaenoriaethau trawsbynciol, yn benodol mewn perthynas â newidiadau yn y galw am wasanaethau. Amlygodd hefyd yr angen am y gwelliannau arfaethedig ym mhroses gynllunio a sicrwydd flynyddol yr heddlu lle mae manylion y galw am wasanaethau plismona a'r adnoddau sydd eu hangen i gwrdd â'r galw, ynghyd â manylion y meysydd i fynd i'r afael â nhw trwy fuddsoddiad neu welliannau cynhyrchiant yn cael eu dwyn ynghyd. Mae canfyddiadau'r adroddiad wedi'u crynhoi ar draws y penawdau canlynol:

- Buddsoddi yn y gweithlu, hyfforddiant ac achredu, recriwtio, cadernid cadw staff, a llesiant.
- Heriau ariannol; mae pwysau cyllidebol yn parhau gyda heriau gostyngiadau a/neu newidiadau i gyllid y llywodraeth i'w goresgyn.
- Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd.
- Heriau dadansoddi perfformiad a galw.
- Ystadau - rhaglen fuddsoddi hirdymor i sicrhau y gallwn gynnal gwelededd fel rhan o'n Strategaeth Plismona Bro a Strategaeth Atal Troseddau.
- Seilwaith a datblygiad/cymorth yr adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

- Rheoli gwybodaeth a data.

Mae dull Datganiad Rheoli'r Heddlu presennol wedi'i gydlynyn ganolog ac roedd wedi'i alinio'n agosach â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, cynllunio strategol a phroses y gyllideb ar gyfer 2025/2026. Bydd yr heddlu'n parhau i adolygu ei fethodoleg ar gyfer cynhyrchu Datganiad Rheoli'r Heddlu i sicrhau'r ymagwedd fwyaf effeithlon ac effeithiol at gynllunio strategol.

#### 4 Y Model Sefydliadol

Trefnir heddlu Dyfed-Powys ar sail ddaearyddol a swyddogaethol. Cefnogir y prif gwnstabl gan dîm prif swyddogion sy'n cynnwys y dirprwy brif gwnstabl, y prif gwnstabl cynorthwyol, y cyfarwyddwr datblygu pobl a sefydliad, a'r cyfarwyddwr cyllid. Dangosir prif gyfrifoldebau'r pedair swydd sy'n cefnogi'r prif gwnstabl yn y tabl isod:

| Dirprwy Brif Gwnstabl                                                       | Prif Gwnstabl Cynorthwyol        | Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad      | Cyfarwyddwr Cyllid               |
|-----------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|----------------------------------------------|----------------------------------|
| Adran gyfreithiol                                                           | Plismona lleol                   | Adnoddau dynol                               | Cyllid corfforaethol             |
| Gwella Gwasanaeth/Adolygiad yr Heddlu                                       | Ymchwiliadau                     | Iechyd a llesiant galwedigaethol             | Systemau gwybodaeth a thechnoleg |
| Rheoli gwybodaeth                                                           | Ymateb arbenigol                 | Gwasanaethau datblygu                        | Caffael                          |
| Perfformiad                                                                 | Canolfan Gyswllt yr heddlu       | Cymdeithasau staff a chysylltiadau cyflogwyr | Fflyd                            |
| Cydweithio                                                                  | Cefnogaeth wyddonol              |                                              | Ystadau                          |
| Safonau proffesiynol                                                        | Y ddalfa a chyfiawnder troseddol |                                              |                                  |
| Iechyd a diogelwch                                                          | Partneriaethau                   |                                              |                                  |
| Arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi | Cyfathrebu corfforaethol         |                                              |                                  |

Ar ôl cydnabod maint yr heriau ariannol yn y dyfodol, cychwynnodd y prif gwnstabl Raglen Adolygu'r Heddlu ym mis Mehefin 2022 i gefnogi, herio a hwyluso'r broses o nodi a chyflawni gwelliannau busnes gweithredol a chyflawni arbedion cyllidebol. Roedd y Gyllideb Refeniw a osodwyd ar gyfer 2024/2025 yn cynnwys arbedion o £2.2 miliwn sydd eu hangen i gydbwysu cyllidebau, ac mae'r rhain wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Roedd hyn yn rhan o gynllun arbedion arian parod tair blynedd gyda'r nod o arbed £10 miliwn drwy Raglen Adolygu'r Heddlu sy'n cwmpasu'r blynyddoedd 2023/2024 i 2025/2026.

Mae'r heddlu ar y trywydd iawn i ragori ar hyn gyda £6.3 miliwn wedi'i arbed yn 2023/2024, £2.2 miliwn yn 2024/2025 a £2.8 miliwn pellach wedi'i nodi i'w arbed yn 2025/2026. Mae ymgysylltu cynhwysfawr â deiliaid cyllideb, monitro a chymorth partneriaeth busnes cyllid wedi parhau trwy bob cam o Adolygiad yr Heddlu. Oherwydd amodau cyllido grant, roeddent yn canolbwyntio i ddechrau ar gyllidebau staff yr heddlu a chyllidebau nad ydynt yn gyflogau. Cymerodd y comisiynydd fesurau hefyd i gyfyngu gwariant yn ei swyddfa ei hun, a fydd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth ymdrin â heriau ariannol.

Mae'r heddlu wedi parhau i ail-lunio i ddiwallu'r galw. Fodd bynnag, cydnabyddir bod tirwedd plismona yn newid yn barhaus ac mae llawer o waith o'n blaenau o hyd i gyflawni yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd a blaenoriaethau'r prif gwnstabl wrth fynd i'r afael â materion a nodwyd yn Natganiad Rheoli'r Heddlu diweddaraf.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025, roedd gan y comisiynydd a'r heddlu gyllideb o 1,295 o swyddogion yr heddlu, 137 o swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu, ac 879 o staff yr heddlu. Dangosir dadansoddiad o ddosbarthiad staffio yn y tabl canlynol:

|                                                    | Swyddogion yr heddlu   | Swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu | Staff yr heddlu        | Cyfanswm               |
|----------------------------------------------------|------------------------|----------------------------------------|------------------------|------------------------|
| Swyddi a gyllidebwyd 2024/2025                     | Cyferth ag amser llawn | Cyferth ag amser llawn                 | Cyferth ag amser llawn | Cyferth ag amser llawn |
| Plismona lleol                                     | 564                    | 137                                    | 32                     | 733                    |
| Ymchwiliadau                                       | 426                    | 0                                      | 179                    | 605                    |
| Cymorth gweithredol (gan gynnwys delio â galwadau) | 174                    | 0                                      | 151                    | 325                    |
| Cyfiawnder troseddol                               | 2                      | 0                                      | 72                     | 74                     |
| Cymorth gwyddonol a gwaith fforensig digidol       | 4                      | 0                                      | 68                     | 72                     |
| Safonau proffesiynol                               | 10                     | 0                                      | 18                     | 28                     |
| Eraill gan gynnwys cymorth i fusnesau              | 38                     | 0                                      | 311                    | 349                    |
| Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu          | 0                      | 0                                      | 22                     | 22                     |
| Secondiadau a meysydd a ariennir                   | 77                     | 0                                      | 26                     | 103                    |
| <b>Cyfanswm</b>                                    | <b>1,295</b>           | <b>137</b>                             | <b>879</b>             | <b>2,311</b>           |

Mae'r ymgyrchoedd recriwtio wedi'u cynllunio a'u rheoli'n ofalus yn ystod y flwyddyn i sicrhau'r lefelau gorau posibl o adnoddau, argaeledd sgiliau arbenigol ac i ganiatáu dosbarthu staff yn gymesur ar sail ddaearyddol. Mae Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu yn parhau i weld myfyrwyr sy'n gwnstabiail yn cael eu derbyn bob blwyddyn gyda darparwyr cyrsiau allanol yn darparu elfennau craidd o'u hyfforddiant.

Mae'r heddlu wedi gweld nifer fawr o swyddogion heddlu a staff yn gadael yn ystod y flwyddyn, ac ynghyd â pheth oedi anochel wrth recriwtio trosglwyddedigion, mae hyn wedi arwain at bwysau sylweddol o ran recriwtio a gwirio ac arbedion heb eu cynllunio yn erbyn penawdau cyflog. Yn ogystal â recriwtio i gymryd lle'r rhai sy'n ymddeol ac yn gadael fel arfer, mae'r heddlu hefyd wedi bod yn cynyddu'r sefydliad yn unol â rhaglen Uplift swyddogion heddlu'r Swyddfa Gartref, gan arwain at darged o 1,314 o swyddogion erbyn mis Mawrth 2025, a gynhaliwyd.

Digwyddodd ad-drefnu staff yr heddlu yng ngwanwyn 2023 a gyd-ddigwyddodd â rhoi'r System Rheoli Cofnodion newydd ar waith. Fe wnaeth y ddau newid sylweddol hyn greu rhai ôl-groniadau tymor byr mewn swyddogaethau prosesu allweddol fel trwyddedu arfau tanio, rheoli gwybodaeth a chyfiawnder troseddol, ac mae'r rhain wedi cael sylw yn 2024/2025. Aed i'r afael â gostyngiad o 89 i 44 yn nifer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu a ariennir gan

Lywodraeth Cymru, yn ogystal â dileu cyllid Cyswllt Ysgolion yn 2024/2025, drwy braesept ychwanegol gyda chymorth unfrydol gan y Panel Heddlu a Throseddau. Fodd bynnag, mae lefelau staffio swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu wedi'u lleihau o 163 cyfwerth ag amser llawn i 137 cyfwerth ag amser llawn, ond mae buddsoddiad pellach wedi'i gynllunio i gryfhau hyn trwy gyllid ychwanegol a ddarperir trwy'r Warant Plismona Bro o 2025/2026. Cefnogodd y cynnydd mewn praesept 2024/2025 hefyd barhad y Rhaglen Cyswllt Ysgolion (er gwaethaf tynnu grant Llywodraeth Cymru yn ôl), a chynnydd mewn staffio yng Nghanolfan Reoli'r heddlu, sydd, ynghyd â newidiadau i'r system, wedi arwain at welliannau mewn ateb galwadau a gostyngiadau mewn cyfraddau rhoi'r gorau i alwadau nad ydynt yn rhai brys.

Mae gan y comisiynydd swyddfa sy'n ei gefnogi i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel y nodir yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011. Yn ogystal â rolau statudol y swyddog monitro a'r prif swyddog cyllid, mae gan y comisiynydd dîm o weithwyr proffesiynol i gynghori ar faterion yn ymwneud â chyllid, polisi, perfformiad, ymgysylltu, comisiynu a phartneriaethau. Roedd gan y comisiynydd sefydliad wedi'i gyllidebu o 22 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2024/2025.

## 5 Perfformiad ariannol

Mae datganiad o gyfrifon y grŵp yn dangos perfformiad ariannol y grŵp. Mae hwn wedi'i baratoi yn seiliedig ar arfer cyfrifyddu priodol i gydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r cyllidebau sy'n cael eu rheoli a'u monitro o ddydd i ddydd gan nad yw'r rhain yn cynnwys rhai elfennau megis dibrisiant a symudiadau ar rwymedigaethau pensiwn nad oes angen eu hariannu'n llawn yn ystod y flwyddyn o dan statud.

Mae cost y gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos bod £138.2 miliwn wedi'i wario ar ddarparu gwasanaethau plismona i gyhoedd Dyfed-Powys 2024/25 (2023/24: £132.0 miliwn). Mae'r datganiad yn rhoi dadansoddiad ar draws y prif gydrannau cost. Gwariwyd yr elfen fwyaf ar gyflog a phensiynau swyddogion yr heddlu, a oedd yn cyfrif am £82.6 miliwn o'r cyfanswm yn 2024/25 (2023/24: £77.9 miliwn). Mae'r amrywiad mewn cost gwasanaeth yn cael ei effeithio'n sylweddol gan y symudiad mewn rhwymedigaethau pensiwn a chofnodion dibrisiant cyfalaf.

Mae'r fantolen yn rhoi ciplun o asedau a rhwymedigaethau'r comisiynydd ar 31 Mawrth 2025.

Mae mantolen y grŵp wedi'i dominyddu gan y rhwymedigaeth hirdymor o £923 miliwn (2023/24: £1,053 miliwn) sy'n bodoli mewn perthynas â rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu. Mae hyn yn cynrychioli'r swm y byddai angen ei neilltuo ar ddyddiad y fantolen i dalu am daliadau pensiynau yn y dyfodol ar gyfer yr holl swyddogion a staff presennol a'r rheini wedi ymddeol. Mae'r ffigur hwn wedi'i gyfrifo'n annibynnol ar sail actiwaraid ac mae'n ystyried lefelau cyflog yn y dyfodol, chwyddiant, cyfraddau marwolaethau ac ati. Bu gostyngiad sylweddol yn rhwymedigaeth pensiwn y dyfodol, oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraid a ffactorau disgownt.

Yr eitem fwyaf nesaf ar y fantolen yw £97.7 miliwn (2023/24: £96.4 miliwn) o eiddo, peiriannau ac offer sy'n eiddo i'r comisiynydd ac sydd wedi bod yn destun ailbrisio annibynnol ffurfiol ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Yn ogystal â'r asedau hirdymor hyn, roedd gan y comisiynydd £34.9 miliwn (2023/24: £27.8 miliwn) o asedau tymor byr sy'n bennaf yn ddyledwyr tymor byr ac arian parod. Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol yw £34.6 miliwn ar 31 Mawrth 2025 (2023/24: £29.9 miliwn).

Dadansoddiad o Berfformiad Ariannol ac Amrywiad Cyllidebol 2024/2025

Gosododd y comisiynydd gyllideb o £143.9 miliwn fel Cyllideb Refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/2025 a oedd yn cynnwys defnydd o gronfeydd wrth gefn o £1.6 miliwn, yn ogystal ag arbedion ariannol o £2.2 miliwn (4.6%). Tynnwyd y rhain o gyllidebau gwaelodlin er gwaethaf cynnydd o 6.2% yn y dreth gyngor. Roedd hyn yn adlewyrchu'r pwysau cost parhaus yr oedd Heddlu Dyfed-Powys yn eu hwynebu o ran ynni, chwyddiant cyffredinol, cytundebau cyflog a chyfraddau llog ac ati.

Mae blwyddyn ariannol 2024/2025 wedi bod yn flwyddyn o gyfuno ariannol sylweddol, gyda'r angen i ymgorffori effaith blwyddyn lawn y cynnydd cyflog o 7% a ddyfarnwyd ym mis Medi 2023, yn ogystal ag amrywiaeth o bwysau ariannol eraill sydd wedi'u hymgorffori o fewn y gyllideb gyffredinol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2024/2025 ac yn cymharu hyn â'r gyllideb ddiwygiedig. Mae'r gyllideb ddiwygiedig yn adlewyrchu symudiadau cyllidebau a chronfeydd wrth gefn ychwanegol yn ystod y flwyddyn at ddibenion monitro'r gyllideb, a gymeradwywyd yn unol â'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol. Mae'r symudiadau a adlewyrchir yn cynnwys grantiau ychwanegol ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chael gwared ar wasanaeth i ddioddefwyr Goleudy o gyllidebau'r heddlu wrth ei ail-ddyfarnu i'r gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr.

| Datganiad amrywiad                                                               | Cyllideb wreiddiol | Cyllideb ddiwygiedig | Gwirioneddol | Amrywiant<br>(Cadarnhaol ar gyfer arbed) |
|----------------------------------------------------------------------------------|--------------------|----------------------|--------------|------------------------------------------|
| Deiliad cyllideb                                                                 | £miliwn            | £miliwn              | £miliwn      | £miliwn                                  |
| <b>Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu</b>                                         |                    |                      |              |                                          |
| Costau swyddfa a chomisiynu                                                      | 3.3                | 3.3                  | 2.9          | 0.4                                      |
| Trosglwyddo i/(o) gronfeydd wrth gefn – comisiynydd                              | (0.5)              | (0.5)                | (0.1)        | (0.4)                                    |
| <b>Cyfanswm costau cyllideb refeniw'r comisiynydd</b>                            | <b>2.8</b>         | <b>2.8</b>           | <b>2.8</b>   | <b>0.0</b>                               |
| <b>Prif gwnstabl</b>                                                             |                    |                      |              |                                          |
| Cyflogau a lwfansau'r heddlu                                                     | 84.2               | 84.3                 | 83.5         | 0.8                                      |
| Goramser swyddogion yr heddlu                                                    | 1.8                | 2.3                  | 2.6          | (0.3)                                    |
| Gwyliau'r banc                                                                   | 0.8                | 0.8                  | 0.7          | 0.1                                      |
| Cyflogau a lwfansau staff yr heddlu                                              | 40.8               | 40.6                 | 41.0         | (0.4)                                    |
| Goramser staff yr heddlu                                                         | 0.3                | 0.3                  | 0.3          | 0                                        |
| Costau pensiwn                                                                   | 1.8                | 1.8                  | 1.6          | 0.2                                      |
| Recriwtio, yswiriant a hyfforddiant                                              | 1.9                | 1.9                  | 1.7          | 0.2                                      |
| Costau adeiladau                                                                 | 5.8                | 5.7                  | 5.8          | (0.1)                                    |
| Costau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau                                   | 12.3               | 12.4                 | 12.0         | 0.4                                      |
| Dadansoddi ffonau a gwaith fforensig                                             | 2.6                | 2.6                  | 3.1          | (0.5)                                    |
| Taliadau cydweithio ac asiantaeth                                                | 5.3                | 5.3                  | 5.3          | 0.0                                      |
| Grantiau                                                                         | (14.3)             | (14.7)               | (16.4)       | 1.7                                      |
| Incwm                                                                            | (4.5)              | (3.7)                | (5.4)        | 1.7                                      |
| Cyllid cyfalaf                                                                   | 3.9                | 3.9                  | 5.8          | (1.9)                                    |
| Ailgodi taliadau                                                                 | (0.5)              | (1.1)                | (1.0)        | (0.1)                                    |
| <b>Cyfanswm y gyllideb – heddlu</b>                                              | <b>142.2</b>       | <b>142.4</b>         | <b>140.6</b> | <b>1.8</b>                               |
| <b>Cyfanswm y gyllideb – comisiynydd yr heddlu a throseddu a'r prif gwnstabl</b> | <b>145.0</b>       | <b>145.2</b>         | <b>143.4</b> | <b>1.8</b>                               |
| Cyfraniad i/(o) gronfeydd wrth gefn – prif gwnstabl                              | (1.1)              | (1.3)                | 0.5          | (1.8)                                    |
| <b>Gwariant net ar ôl trosglwyddo o refeniw i gronfeydd wrth gefn</b>            | <b>143.9</b>       | <b>143.9</b>         | <b>143.9</b> | <b>0.0</b>                               |
| <b>Cyfrifon dal a chyfrifon hunan-fantoli</b>                                    |                    |                      |              |                                          |
| Rhaglen ailhyfforddi gyrwyr                                                      | 0.0                | 0.0                  | (0.1)        | 0.1                                      |
| Trosglwyddo i/(o) gronfeydd wrth gefn – ailhyfforddi gyrwyr                      | 0.0                | 0.0                  | 0.1          | (0.1)                                    |
| <b>Cyfanswm cyfrifon dal</b>                                                     | <b>0.0</b>         | <b>0.0</b>           | <b>0.0</b>   | <b>0.0</b>                               |

Roedd gwariant Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu £0.4 miliwn o fewn y gyllideb a arweiniodd at lai o symud nag a ragwelwyd yn y cronfeydd wrth gefn. Roedd hyn yn adlewyrchu gwariant is gan yr heddlu a phartneriaid, gan gynnwys effaith trosglwyddo i'r Gwasanaethau i Ddiodefwyr a amlygwyd uchod.

Mae sefyllfa alldro refeniw'r heddlu yn gadarnhaol iawn gyda thanwariant o £1.8 miliwn yn gyffredinol cyn addasu ar gyfer trosglwyddiadau wrth gefn cyllideb a glustnodwyd ar gyfer pwysau cost untro sy'n codi yn 2025/26 yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Gadawodd nifer sylweddol uwch o swyddogion a staff yr heddlu na'r disgwyl yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at arbedion ariannol ar gyfer y flwyddyn yn erbyn penawdau cyflog ac a olygodd fod angen camau cadw a recriwtio gan Ddysgu a Datblygu. Cyflawnwyd targedau cynyddu nifer swyddogion y Swyddfa Gartref yn llawn drwy gynyddu gweithgarwch recriwtio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y dyfarniad cyflog a gytunwyd ar gyfer ei dalu o fis Medi 2024 ar gyfer staff a swyddogion yn uwch nag a ragwelwyd adeg gosod y gyllideb, sef 4.75% o'i gymharu â 2.5% a ychwanegodd tua £1.2 miliwn at gostau swyddogion a £0.5 miliwn at gostau staff. Darparodd y Swyddfa Gartref grant ychwanegol o £1.1 miliwn yn ystod y flwyddyn a wnaeth negyddu effaith hyn ar y fantolen yn ystod y flwyddyn i raddau helaeth a chyfrannu at yr arbedion yn erbyn y pennawd grantiau.

Arweiniodd amrywiaeth o heriau gweithredol ac arbenigol o ran swyddogion a staffio at bwysau ar gyllidebau goramser a oedd yn angenrheidiol i gynnal darparu gwasanaethau, ac arweiniodd hyn at orwariant net o £0.2 miliwn i swyddogion. Contract newydd ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Fforensig y ddalfa a chontract Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar wahân oedd y prif gyfranwyr at y gorwariant o £0.5 miliwn yn erbyn y linell Dadansoddi ffonau a gwaith fforensig.

O ran penawdau Incwm, roedd derbyniadau llog yn sylweddol uwch nag a ragwelwyd oherwydd llif arian parod mwy ffafriol a chyfraddau llog yn parhau'n uwch am gyfnod hirach gan gyfrannu £0.9 miliwn o'r arbediad o £1.7 miliwn yn erbyn y pennawd hwn. Cydnabuwyd ad-daliad sylweddol o £0.6 miliwn mewn perthynas â thaliadau trethi hanesyddol ar eiddo'r pencadlys hefyd ar ddiwedd y flwyddyn yn dilyn proses apelio ragweithiol.

Roedd yr amrywiadau cadarnhaol yn erbyn y penawdau llog a chyflogau yn caniatáu i'r heddlu ariannu mwy o wariant cyfalaf o'i wariant refeniw nag a ragwelwyd, a thrwy hynny leihau benthyca a thynnu i lawr cronfeydd cyfalaf wrth gefn. Mae'r amrywiad o £1.9 miliwn yn erbyn penawdau cyfalaf yn adlewyrchu tâl cyllido refeniw uniongyrchol ychwanegol a gytunwyd ar gyfer y flwyddyn. Arweiniodd oedi wrth symud ymlaen â gwerthu eiddo a glustnodwyd i'w gwerthu yn 2024/2025 i 2025/2026 at benderfyniad i gynyddu cyllido refeniw uniongyrchol o swm cyfatebol yn hytrach na chynyddu benthyca neu dynnu cronfeydd wrth gefn ychwanegol i lawr, a allai fod wedi effeithio ar lif arian fel arall.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaeth y Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr tua £0.1 miliwn yn fwy o arian na'r disgwyl, sy'n cael ei ychwanegu at gronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer mentrau diogelwch ffyrdd gan y prif gwnstabl.

Bu'r comisiynydd a'r prif gwnstabl yn ddarbodus a phwylllog wrth weithredu eu cyfrifoldebau ariannol yn ystod y flwyddyn er gwaethaf galwadau gweithredol parhaus. Gwnaeth sawl digwyddiad ffodus a phenderfyniadau masnachol rhagweithiol y sefyllfa alldro terfynol yn llawer mwy ffafriol na'r disgwyl. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn gadarnhaol iawn ac yn rhoi Heddlu Dyfed-Powys mewn sefyllfa gryfach i ymdrin â heriau ariannol yn y dyfodol.

Yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 21 Mai 2025, gwnaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd benderfyniadau ar ddyrannu cronfeydd wrth gefn i gyd-fynd â'r balansau a dybiwyd yn lefel y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gytunwyd ym mis Ionawr 2025. Yn ogystal, cytunwyd ar rai symudiadau pellach i gynyddu Cronfa Arloesi'r comisiynydd sydd wedi'i chlustnodi tuag at dalu costau Rhaglen Atal, Ymyrryd ac Ymgysylltu estynedig ar draws Heddlu Dyfed-Powys.

Mae manylion llawn y symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn a'r cronfeydd sy'n weddill yn cael eu hadrodd yn *'nodyn 10 - Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd'*.

Mewn perthynas â gwariant cyfalaf, gosododd y comisiynydd gyllideb wreiddiol o £21.3 miliwn ym mis Chwefror 2025 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025 a ostyngwyd i £16.6 miliwn ym mis Ionawr 2025 oherwydd oedi mewn perthynas â nifer o gynlluniau mawr.

Diweddarwyd y rhaglen gyfalaf fel rhan o'r broses Cynllunio Ariannol Tymor Canolig. Dyma gynllun 10 mlynedd sy'n adlewyrchu amnewid asedau yn lle hen rai a gwelliannau sy'n cwmparu ystadau, fflyd a TGCh sy'n gysylltiedig â strategaethau hirdymor a rhaglenni amnewid adnoddau yn lle hen rai.

Roedd y sefyllfa ddiwedd blwyddyn ar gyfer cyfalaf yn gyffredinol yn £3.7 miliwn o fewn y gyllideb ddiwygiedig o £16.6 miliwn yn 2024/2025. Mae cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn y Cyd-uned Arfau Tanio newydd, a oedd wedi cael ei ohirio oherwydd pryderon cynllunio ac ecolegol sydd bellach wedi cael sylw. Fodd bynnag, mae oedi wedi bod gyda gorsaf heddlu Aberhonddu a pharc solar yn y Pencadlys oherwydd cynllunio a materion anochel eraill. Mae'r flwyddyn wedi gweld gwariant sylweddol yn erbyn cynaliadwyedd, cynhyrchu incwm, rhesymoli gorsafoedd a chynlluniau gweithio ystwyth sydd wedi cyfrannu at arbedion gwariant refeniw yn enwedig mewn perthynas â chyllidebau ystadau. Mae'r rhaglen gyfalaf hefyd wedi cefnogi gwelliannau yn seilwaith yr ystafell reoli a gyfrannodd, ynghyd â staff ychwanegol, at ostyngiadau mewn cyfraddau gadael galwadau a gwelliannau gwasanaeth yn yr ardal honno.

Ariannwyd y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/2025 o gyllid refeniw uniongyrchol, cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a benthyca darbodus. At ei gilydd, roedd swm o £12.9 miliwn wedi'i wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Dangosir crynodeb o'r gwariant terfynol a'r sefyllfa ariannu yn erbyn y gyllideb yn y tabl canlynol, ynghyd ag amrywiad cyllideb lefel uchel:

|                                                               | Cyllideb wreiddiol<br>2024/2025 | Cyllideb ddiwygiedig<br>2024/2025 | Gwariant gwirioneddol<br>2024/2025 | Amrywiant  |
|---------------------------------------------------------------|---------------------------------|-----------------------------------|------------------------------------|------------|
|                                                               | £miliwn                         | £miliwn                           | £miliwn                            | £miliwn    |
| <b>Gwariant wedi'i gyfalafu</b>                               |                                 |                                   |                                    |            |
| Rhaglen ystadau                                               | 16.0                            | 10.8                              | 8.5                                | 2.3        |
| Cerbydau                                                      | 2.3                             | 2.7                               | 2.4                                | 0.3        |
| Prosiectau TGCh mawr                                          | 0.5                             | 1.0                               | 1.2                                | (0.2)      |
| Amnewid dyfeisiau TGCh cylchol                                | 2.2                             | 1.8                               | 0.7                                | 1.1        |
| Amnewid offer cyfalaf eraill                                  | 0.3                             | 0.3                               | 0.1                                | 0.2        |
| <b>Is-gyfanswm y gwariant cyfalafu</b>                        | <b>21.3</b>                     | <b>16.6</b>                       | <b>12.9</b>                        | <b>3.7</b> |
| Prosiectau ariannu refeniw uniongyrchol/hunan ariannu refeniw | 0.0                             | 0.1                               | 0.1                                | 0.0        |
| <b>Cyfanswm y gwariant</b>                                    | <b>21.3</b>                     | <b>16.7</b>                       | <b>13.0</b>                        | <b>3.7</b> |
| <b>Ariannu</b>                                                |                                 |                                   |                                    |            |
| Ariannu refeniw uniongyrchol                                  | 2.7                             | 2.7                               | 3.5                                | (0.8)      |
| Derbyniadau cyfalaf – Adeiladau                               | 1.0                             | 1.0                               | 0.0                                | 1.0        |
| Derbyniadau cyfalaf – Cerbydau                                | 0.1                             | 0.1                               | 0.0                                | 0.1        |
| Cronfa cyfalaf wrth gefn a ddefnyddiwyd                       | 1.5                             | 3.0                               | 0.9                                | 2.1        |
| Benthyg darbodus                                              | 16.0                            | 9.8                               | 8.5                                | 1.3        |
| <b>Is-gyfanswm cyllido</b>                                    | <b>21.3</b>                     | <b>16.6</b>                       | <b>12.9</b>                        | <b>3.7</b> |
| Prosiectau hunan ariannu / ariannu refeniw uniongyrchol       | 0.0                             | 0.1                               | 0.1                                | 0.0        |
| <b>Cyfanswm ariannu</b>                                       | <b>21.3</b>                     | <b>16.7</b>                       | <b>13.0</b>                        | <b>3.7</b> |

O ran cyllid cyfalaf, mae'r llythriad mewn gwariant wedi golygu nad oes angen i'r comisiynydd fenthycu cymaint ag a ragwelwyd. Roedd y sefyllfa refeniw ffafriol ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn caniatáu tâl ariannu refeniw uniongyrchol ychwanegol, gan alluogi llai o ddefnydd o gronfeydd cyfalaf wrth gefn nag a gynlluniwyd. Cymeradwyodd y comisiynydd i £3.7 miliwn o lithriad gael ei gario ymlaen i gefnogi'r cynlluniau cyfalaf sy'n parhau i 2025/2026 a thu hwnt.

## 6 Risgiau, cyfleoedd a'r rhagolygon ariannol tymor canolig

Rheolir risgiau ar bob lefel o'r sefydliad trwy'r strwythur llywodraethu a defnyddir cofrestr risg gorfforaethol i gofnodi, rheoli a lliniaru'r prif risgiau a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddau a blaenoriaethau'r prif gwnstabl.

Roedd y prif risgiau a oedd yn parhau'n 'fyw' ar ddiwedd 2024/2025 yn cynnwys y canlynol:

- Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Aberystwyth - pryderon ynghylch cyllid, amserlenni, a gofynion achredu erbyn mis Hydref 2025 ar gyfer y safle newydd o gael dyddiad terfynu prydles penodedig ar y safle presennol. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei monitro'n agos ar y cyd. [sgôr gweddilliol 16]
- Ariannu partneriaeth camerâu diogelwch yng Nghymru – mae partneriaeth GanBwyll yn profi diffygion ariannol sy'n cael eu tanysgrifennu gan heddluoedd, a achosir gan incwm tocynnau sy'n amrywio a phwysau chwyddiant, wedi'u gwaethygu gan gyllid grant sefydlog. Mae cynllun adfer yn cael ei lunio. [sgôr gweddilliol 12]
- Risg ariannu yn y dyfodol – Mae risg y gallai adolygiad fformiwla ariannu sy'n cael ei gynnal gan y Swyddfa Gartref arwain at ostyngiadau mewn cyllid grant. Mae'r heddlu yn aros am ymgynghoriad pellach a phenderfyniadau gan y Swyddfa Gartref [sgôr gweddilliol 15]
- Gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn y ddalfa – mae problem methiant gan y darparwr gwasanaeth allanol i fodloni amseroedd presenoldeb yn y Drenewydd oherwydd problemau recriwtio a gwirio nyrsys yn cael sylw. [sgôr gweddilliol o 12]
- Fetio - mae risg na fydd yr heddlu'n cyflawni ei ymrwymadau fetio oherwydd ôl-groniadau cynyddol sy'n fwy na throthwy goddefgarwch Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Mae adnoddau o wahanol adrannau yn cael eu dyrannu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad, a bydd effaith y cymorth yn cael ei monitro'n agos. [sgôr gweddilliol o 20]
- Cofnodi troseddau ac amseroldeb - mae risg na fydd y broses o gofnodi troseddau yn cyd-fynd â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref os na chaiff y materion sy'n weddill eu datrys, a allai effeithio ar wasanaethau i ddioddefwyr ac effeithiolrwydd ymchwiliadau. Mae blaenoriaethu cofnodi troseddau yn hytrach nag ymchwilio wedi arwain at welliannau misol mewn cydymffurfiaeth. Cynhelir monitro parhaus nes bod y lefelau goddefgarwch yn cael eu cyrraedd. [sgôr gweddilliol 9]
- Datrysiadau ystafell reoli - mae pryderon wedi'u codi ynghylch datrysiad ystafell reoli Motorola, sy'n cefnogi nifer o lwyfannau teleffoni a radio gwasanaethau brys, gan gynnwys Heddlu Dyfed-Powys. Mae toriadau wedi'u cynllunio a rhai heb eu cynllunio wedi digwydd, gan beri risgiau i ddarparu gwasanaethau, diogelwch swyddogion, ac o bosibl enw da'r heddlu. Mae Motorola yn darparu diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa, a fydd yn cael eu monitro'n agos. [sgôr gweddilliol o 20]

Mae'r gofrestr risg yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau bod perchennog risg yn cael ei neilltuo i risgiau sy'n gyfrifol am roi mesurau lliniaru a chamau gweithredu priodol ar waith. Mae rhagor o fanylion mewn perthynas â rheoli risg wedi'u cynnwys yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

Cytunodd y Panel Heddlu a Throseddau yn unfrydol ar gynnydd o 8.6%, neu £28.65, yn y dreth gyngor ym Mand D fel y cynigiwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau, gan arwain at gyllideb net o £153.3 miliwn ar gyfer 2025/2026 ym mis Ionawr 2025. Mae'r gyllideb yn cynnwys:

- 1,314 o swyddogion, wedi'i gefnogi gan ymgyrch Uplift a'r Warant Plismona Bro.
- 50 o swyddi staff heddlu ychwanegol i ryddhau swyddogion i swyddogaethau plismona bro a gwasanaeth ymateb yr heddlu, wedi'i ariannu'n rhannol gan grant Gwarant Plismona Bro ychwanegol.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth feddygol fforensig yn y ddalfa yn y Drenewydd gyda darpariaeth gwasanaeth sy'n seiliedig ar nyrsys wedi'i hymgorffori.
- Buddsoddi mewn cyfiawnder troseddol i wella data rheoli ac i ganoli prosesau golygu a datgelu.
- Buddsoddi mewn awtomeiddio prosesau robotig, negeseuon cymunedol, a rheoli gwybodaeth.
- Ehangu darpariaeth gwasanaeth y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol mewn cydweithrediad â heddluoedd a byrddau iechyd eraill Cymru.

Mae'r gyllideb yn ymgorffori cynnydd o 4.75% mewn cyflog o fis Medi 2024 a chynnydd chwyddiant o 2.6%, yn ogystal â gofyniad cynllun lleihau costau o £2.8 miliwn ar gyfer y flwyddyn. Mae cynnydd yn ffactor swyddi gwag staff yr heddlu i 5% hefyd wedi'i gynnwys, sy'n adlewyrchu'r profiad cyfredol yn well. Mae cynnydd yng nghyfradd cyfraniadau Yswiriant Gwladol a gostyngiad yn y trothwy hefyd yn cael ei adlewyrchu, wedi'i ariannu'n rhannol drwy grant.

O fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, mae sawl rhagdybiaeth a chanlyniad penderfyniadau sydd eisoes wedi'u cytuno, gan gynnwys:

- Cronfeydd wrth gefn yn gostwng o £21.3 miliwn ym mis Mawrth 2024 i £7.9 miliwn erbyn mis Mawrth 2027.
- Rhaglen gyfalaf 2025/2026 o £24.2 miliwn gan gynnwys gorsaf heddlu Aberhonddu a'r Maes Hyfforddi Arfau Tanio ar y Cyd.
- Gofyniad cyllido cyfalaf (benthyca) ychwanegol o £35 miliwn erbyn mis Mawrth 2029 a gofyniad benthyca allanol o £55.8 miliwn, gyda chostau cyllido cyfalaf yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yng nghyllideb refeniw y dyfodol wedi mantoli.

Mae'r amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn heriol iawn o ran y sefyllfa economaidd gyffredinol, gyda'r argyfwng costau byw yn arwain at gynydd dwy ddigid yn y gofyniad cyllidebol dros y ddwy flynedd ddiwethaf cyn ychwanegu mesurau lleihau costau o dros £11 miliwn ers 2023/2024. Gydag Adolygiad yr Heddlu yn parhau i mewn i ail a thrydedd flwyddyn, mae'r heddlu wedi gallu gosod Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i fantoli yn seiliedig ar set gychwynnol o dybiaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod sy'n gysylltiedig â chwyddiant y Trysorlys a dangosyddion cyllid.

Gellir dod o hyd i ddogfen lawn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/2026 yma:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cyllid/y-praesep-a-r-cynllun-ariannol-tymor-canolig/>

Mae gosod rhagdybiaethau chwyddiant yn y dyfodol yn anodd, gan fod pob newid canrannol o'r lefelau tybiedig yn gwneud gwahaniaeth sylweddol mewn termau ariannol. Byddai newid o 1% ar draws yr holl dybiaethau cyllidebol a gynhwysir ar gyfer pob un yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn arwain at ddiffyg/gwarged o £1.1 miliwn mewn perthynas â 2025/2026 ond diffyg/gwarged o £3.5 miliwn i £4.0 miliwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod, y byddai angen mynd i'r afael â nhw, gyda'i gilydd, trwy ostyngiadau costau pellach neu addasiadau i'r dreth gyngor. Mae'r cynllun yn arbennig o sensitif i amrywiadau mewn dyfarniadau cyflog, lefelau praesept a setliadau.

Cyhoeddwyd adroddiad ar ail gam yr adolygiad cynhwysfawr o wariant 2025 ar 11 Mehefin 2025, a disgwylir rhyddhau rhagor o wybodaeth mewn perthynas ag aneddiadau yn y dyfodol a dyraniadau grant Plismona Bro am dair blynedd o 2026/2027. Bydd hyn yn darparu sail well i gynllunio'n ariannol na dull blaenorol y Swyddfa Gartref o gyhoeddiadau setliad blynyddol. Bydd gwaith ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddarau ar gyfer 2026/2027 yn dechrau o fis Mehefin 2025.

Mae'r comisiynydd a'r heddlu yn wynebu nifer o ymrwymadau a rhwymedigaethau ariannol posibl anhysbys ac ansicr yn y dyfodol y cyfeirir atynt ymhellach yn y nodiadau Rhwymedigaethau digwyddiadol a Phensiynau. Ailgychwynnodd Llywodraeth y DU yr adolygiad o'r fformiwla ariannu ym mis Mai 2021, ond mae'n annhebygol y bydd hyn yn symud ymlaen yn y tymor canolig ac mae'n bosibl y caiff ei ymgorffori mewn ystyriaethau ehangach ynghylch diwygio'r heddlu. Mae'r gwaith ar ddiwygio'r heddlu wedi bod yn mynd rhagddo a disgwylir Papur Gwyn yn nodi bwriad y llywodraeth erbyn diwedd y flwyddyn, gyda deddfwriaeth ac amserlen weithredugynyddrannol i ddilyn. Mae canlyniad y gwaith hwn a'r canlyniadau ariannol posibl yn parhau i fod yn risg.

Er gwaethaf y cynnydd tybiedig ym mhraesept y dreth gyngor, mae angen gofynion effeithlonrwydd a chynhyrchiant parhaus dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae ansicrwydd ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn y dyfodol, cymhlethdodau mewn perthynas â chostau pensiynau a'r gweithlu o'i gymharu â'r dirwedd economaidd ehangach yn golygu bod yr amgylchedd ariannol yn debygol o barhau i fod yn heriol am y dyfodol hyd y gellir ei ragweld.

Mae hysbysiad Adran 114 yn ddatganiad y mae'n ofynnol i swyddog cyllid awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr ei gyhoeddi, lle mae awdurdod yn rhagweld y bydd ei wariant yn fwy na'i incwm ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol. I gadarnhau, mae Heddlu Dyfed-Powys yn ystyried gofynion Adran 114 yn rheolaidd, fel rhan o'r broses o osod a monitro'r gyllideb. Ystyrir bod yr incwm a ragwelir yn ddigonol i fodloni'r gwariant a ragwelir yn y tymor byr a chanolig ac felly nid oes angen adrodd ar unrhyw faterion na hysbysiadau ar hyn o bryd.

## 7 Sail paratoi a chyflwyno

Mae'n rhaid i'r comisiynydd a'r prif gwnstabl fel endidau cyfreithiol ar wahân gynhyrchu eu datganiad o gyfrifon eu hunain, gyda'r comisiynydd yn gyfrifol am gynhyrchu cyfrifon y grŵp, y mae cyfrifon y comisiynydd wedi'u cynnwys ynddynt.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol baratoi datganiad o gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Mae cod ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi'i nodi fel un sy'n cynrychioli arferion priodol.

Mae'r canlynol yn esboniad o'r datganiadau sy'n dilyn, eu pwrpas a'r berthynas rhyngddynt:

- **Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon** – mae'r datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r comisiynydd a'i brif swyddog cyllid;
- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol** – mae hwn yn nodi barn yr archwilydd allanol, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ynghylch p'un a yw cyfrifon y grŵp a gyflwynwyd yn rhoi 'darlun gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r comisiynydd ar gyfer 2024/2025;
- **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** – mae'r datganiad hwn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu gan y grŵp o adnoddau fel yr adroddwyd gan reolwyr, wedi'u rhannu ar draws cyfarwyddiaethau a gwasanaethau o

gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan y grŵp a adroddwyd yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol;

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - mae'r datganiad craidd hwn yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau plismona a lleihau trosedd yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys yr holl dreuliau o ddydd i ddydd ac incwm cysylltiedig ar sail croniadau, yn ogystal â thrafodion sy'n mesur gwerth yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd a gwerth rhagamcanol gwirioneddol y buddion ymddeol a enillwyd gan weithwyr yn ystod y flwyddyn;
- **Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn** – mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau dros y flwyddyn yn y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y grŵp, wedi'u dadansoddi i gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio (arian y gellir ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu i leihau trethiant lleol) a chronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio (arian na ellir ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau ac sy'n bodoli drwy gymhwyso safonau cyfrifyddu, er enghraifft, cronfeydd wrth gefn pensiynau sy'n cyfateb i'r rhwymedigaeth pensiwn);
- **Mantolen** – mae'r datganiad craidd hwn yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y grŵp ar ddyddiad y fantolen. Y comisiynydd sy'n berchen ar y tir, yr adeiladau ac asedau eraill a ddefnyddir gan yr heddlu. Mae'r asedau net (asedau heb y rhwymedigaethau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ac na ellir eu defnyddio;
- **Datganiad Llif Arian Parod** - mae'r datganiad hwn yn crynhoi newidiadau i arian parod ac arian sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod adrodd;
- **Cyfrif Cronfa Bensiwn yr heddlu** - mae'r datganiad hwn yn dangos gwariant, incwm, asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â phensiynau'r heddlu yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrif yn dangos y grant atodol sy'n ddyledus gan y grŵp i gyfrif y gronfa pensiwn. Wedi hynny, mae'r Swyddfa Gartref yn ad-dalu'r grŵp am arian a dalwyd i'r cyfrif ac yn tanysgrifennu'r diffyg i bob pwrpas. Byddai'r arfer hwn yn gweithio i'r gwrthwyneb pe bai cyfrif y gronfa pensiwn yn dangos gwarged ar ddiwedd y flwyddyn;
- **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** – mae'r rhain yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n egluro ymhellach yr eitemau a gynhwysir yn y prif ddatganiadau gyda'r nod o wella dealltwriaeth y darllenwyr o'r prif ddatganiadau ariannol. Maent yn nodi'r polisïau cyfrifo a ddefnyddir fel sail i baratoi'r datganiadau ariannol fel sy'n ofynnol gan y cod ymarfer;
- **Geirfa o dermau** – mae'r rhain yn darparu naratif ychwanegol i egluro'r termau a ddefnyddir yn y datganiad gyda'r nod o wella dealltwriaeth y darllenwyr fel sy'n ofynnol gan y cod ymarfer;
- Mae **Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar y Cyd** yn cael ei gyhoeddi ar wahân i'r datganiad o gyfrifon hwn ac mae'n nodi manylion sut mae'r comisiynydd a'r prif gwnstabl yn llywodraethu eu materion. Mae'r datganiad yn ddogfen statudol ar gyfer pob corfforaeth undyn, er ei fod yn parhau i fod yn ddatganiad cyfun ar gyfer 2024/2025. Nod hyn yw cynorthwyo tryloywder a dealltwriaeth i'r darlennydd, gan ddangos yn glir lle mae trefniadau'n gyson a lle maent yn gwahaniaethu rhwng y comisiynydd a'r prif gwnstabl. Mae'r datganiad yn cynnwys adolygiad blynnyddol o ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu ac yn rhoi sicrwydd ar y systemau rheolaeth fewnol.

## Datganiad o Gyfrifoldebau

Diben y datganiad hwn yw nodi cyfrifoldebau'r comisiynydd a'r prif swyddog ariannol mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon.

### Cyfrifoldebau'r comisiynydd

Mae'n ofynnol i'r comisiynydd wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Ariannol;
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Cymeradwyaf y datganiad o gyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025.



---

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Dyddiad: 2 Rhagfyr 2025**

### Cyfrifoldebau'r prif swyddog ariannol

Mae'r prif swyddog ariannol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon yn unol â'r arferion priodol a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth/LASAAC (y Cod).

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon hwn, mae'r prif swyddog ariannol wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth; a
- chydymffurfio â'r cod awdurdodau lleol.

Mae'r prif swyddog ariannol hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol; a
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Tystiaf fod y datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y grŵp/comisiynydd ar y dyddiad adrodd ac o'i wariant a'i incwm am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025.



---

**Prif Swyddog Ariannol**

**Dyddiad: 2 Rhagfyr 2025**

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol y canlynol:

- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys;
- Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys sy'n cynnwys Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys
- ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Daflen Fantolen, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu perthnasol.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys yn cynnwys Dadansoddiad o Wariant a Chyllid y Grŵp, Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp, Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp, Datganiad Llif Arian y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu perthnasol.

Mae Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys Datganiad Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net a nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r canlynol yn wir am y datganiadau ariannol:

- maent rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys ar 31 Mawrth 2025 ac o'u hincwm a'u gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglir ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a rheoleidd-dra fel y nodir yn Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys, a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn unol

â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### **Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### **Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd ar hynny. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth a gefais yn ystod yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos fel pe bai wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25;
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

**Materion eithriedig yr wyf yn adrodd arnynt**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a'u hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol ar y cyd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt i chi, os yw'r canlynol yn wir, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â nhw gan fy nhîm; ac
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys, sy'n rhoi darlun cywir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- rheolaethau mewnol y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny dryw dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, materion yn ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl

iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol o ran afreoleidd-dra gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holî'r rheolwyr, pennaeth yr archwiliad mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys sy'n ymwneud â'r canlynol:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cydnabod gwariant, postio dyddlyfrau anarferol a thuedd wrth gyfrifo amcangyfrifon cyfrifyddu;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys; a
- Cael dealltwriaeth o berthnasodd â phartïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfedd â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr, y Cydbwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolaeth yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn dynodi tuedd posibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Rhannais hefyd ddeddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll â phob aelod o'r tîm archwilio, ac arhosais yn wiliadwrus i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd yn effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cynghorau Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

### **Cyfrifoldebau eraill archwilwyr**

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

### **Tystysgrif cwblhau archwiliad**

| 30,437                           | <b>(Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau</b>                                                                                      | <b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b> | <b>27,322</b>      |
| (34,681)                         | Addasiadau i warged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod                                      | 24                                            | (30,279)           |
| 1,080                            | Addasiadau ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu | 24                                            | 168                |
| <b>(3,164)</b>                   | <b>Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu</b>                                                                                         | <b>24</b>                                     | <b>(2,789)</b>     |
| 7,339                            | Gweithgareddau buddsoddi                                                                                                                       | 25                                            | 13,810             |
| (9,702)                          | Gweithgareddau ariannu                                                                                                                         | 26                                            | (11,277)           |
| <b>(5,527)</b>                   | <b>Cynnydd neu ostyngiad net mewn arian parod ac arian sy'n cyfateb i arian parod</b>                                                          | <b>19</b>                                     | <b>(256)</b>       |
| 5,731                            | Arian parod ac arian sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd                                                                    | 19                                            | 11,258             |
| <b>11,258</b>                    | <b>Arian parod ac arian sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd</b>                                                              | <b>19</b>                                     | <b>11,514</b>      |

## Cronfa bensiwn yr heddlu

| Grŵp 2023/2024<br>£'000 | Comisiynydd<br>2023/2024<br>£'000 | Cyfrif cronfa                                                                    | Grŵp<br>2024/2025<br>£'000 | Comisiynydd<br>2024/2025<br>£'000 |
|-------------------------|-----------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|-----------------------------------|
|                         |                                   | Cyfraniadau derbyniadwy                                                          |                            |                                   |
| (16,399)                | 0                                 | Cyfraniadau cyflogwr                                                             | (19,728)                   | 0                                 |
| 281                     | 0                                 | Incwm arall (cyfraniadau cyflogwyr at afiechyd) *                                | (444)                      | 0                                 |
| (7,084)                 | 0                                 | Cyfraniadau swyddogion                                                           | (7,763)                    | 0                                 |
| <b>(23,202)</b>         | <b>0</b>                          | <b>Cyfraniadau derbyniadwy</b>                                                   | <b>(27,935)</b>            | <b>0</b>                          |
| <b>(528)</b>            | <b>0</b>                          | <b>Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill</b>                         | <b>(476)</b>               | <b>0</b>                          |
|                         |                                   | Buddion sy'n daladwy                                                             |                            |                                   |
| 35,395                  | 0                                 | Pensiynau                                                                        | 38,575                     | 0                                 |
| 5,640                   | 0                                 | Cyfnewidiadau a buddion ymddeol ar ffurf cyfandaliad *                           | 6,468                      | 0                                 |
| <b>41,035</b>           | <b>0</b>                          | <b>Buddion sy'n daladwy</b>                                                      | <b>45,043</b>              | <b>0</b>                          |
|                         |                                   | Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael                    |                            |                                   |
| 53                      | 0                                 | Ad-daliadau cyfraniadau                                                          | 83                         | 0                                 |
| (41)                    | 0                                 | Cynllun yn talu taliadau treth **                                                | 18                         | 0                                 |
| <b>12</b>               | <b>0</b>                          | <b>Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael</b>             | <b>101</b>                 | <b>0</b>                          |
| <b>17,317</b>           | <b>0</b>                          | <b>Swm net sy'n daladwy am y flwyddyn</b>                                        | <b>16,733</b>              | <b>0</b>                          |
| (17,317)                | (17,317)                          | Cyfraniad ychwanegol o gronfa'r heddlu (yn ymwneud â: grant y Swyddfa Gartref)'. | (16,733)                   | (16,733)                          |
|                         | 17,317                            | Trosglwyddo o fewn grŵp                                                          |                            | 16,733                            |
| <b>0</b>                | <b>0</b>                          | <b>Cyfanswm</b>                                                                  | <b>0</b>                   | <b>0</b>                          |

\* Ar gyfer 2023/24, o ran 'Incwm arall (cyfraniadau cyflogwr at afiechyd)' a 'Cyfnewidiadau a buddion ymddeol ar ffurf cyfandaliad', roedd cofnodion cyfrifyddu yn ymwneud â 2022/23 na chawsant eu cyflwyno tan 2023/24. Arweiniodd hyn at danamcangyfrif y ffigurau yn 2023/2024. Yn 2023/24, arweiniodd y tanamcangyfrif o ran 'Incwm arall (cyfraniadau cyflogwyr at afiechyd)' at y ffigur yn troi'n ddebyd (yn lle credyd).

Cafodd y cofnodion uchod eu negyddu i ddim, felly, ni effeithiodd yr addasiadau ar y 'cyfraniad ychwanegol o gronfa'r heddlu (yn ymwneud â: grant y Swyddfa Gartref)'.

\*\* O ran 'Cynllun yn talu taliadau treth', roedd cofnod cyfrifyddu yn ymwneud â 2022/2023 na chafodd ei gyflwyno tan 2023/2024. Arweiniodd hyn at danamcangyfrif y ffigur ar gyfer 'Cynllun yn talu taliadau treth' yn 2023/2024. Yn 2023/2024, arweiniodd y tanamcangyfrif at y ffigur troi'n gredyd (yn lle debyd).

Arweiniodd yr addasiad hwn hefyd at y 'cyfraniad ychwanegol o gronfa'r heddlu (ynghlŷn â: grant y Swyddfa Gartref)' yn cael ei danddatgan yn 2023/2024.

| 2023/2024<br>(Ailddatgan) |                                                             | 2024/2025      |
|---------------------------|-------------------------------------------------------------|----------------|
| £'000                     | Datganiad asedau net                                        | £'000          |
|                           | Asedau cyfredol                                             |                |
| 5,270                     | Dyledwr - grant sy'n ddyledus gan y Swyddfa Gartref         | 4,405          |
| 465                       | Dyledwr - gwerthoedd trosglwyddo sy'n ddyledus              | 491            |
| 0                         | Dyledwr -cyfraniadau McCloud sy'n ddyledus (cynllun 1987)   | 52             |
| <b>5,735</b>              | <b>Asedau cyfredol</b>                                      | <b>4,948</b>   |
|                           | Rhwymedigaethau cyfredol                                    |                |
| (260)                     | Credydwr - taliadau sy'n ddyledus i swyddogion sy'n ymddeol | (948)          |
| 0                         | Credydwr - lwfansau blynyddol yn daladwy i CThEF            | (112)          |
| (5,475)                   | Credydwr - balans net sy'n ddyledus i gronfa'r heddlu       | (3,888)        |
| <b>(5,735)</b>            | <b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>                             | <b>(4,948)</b> |
| <b>0</b>                  | <b>Asedau net</b>                                           | <b>0</b>       |

### Nodiadau i gyfrifon cronfa bensiwn yr heddlu

- Mae'r polisïau cyfrifyddu a ddilynwyd, a'r rhagdybiaethau a wnaed, ynghylch Cyfrif Pensiynau'r heddlu yn unol â'r rhai a nodir yn Nodyn 1 - Polisïau Cyfrifyddu;
- Gweinyddir Cynllun Pensiwn yr Heddlu gan Gyngor Sir Caerfyrddin o dan gytundeb lefel gwasanaeth;
- Nid oes unrhyw asedau buddsoddi yn y gronfa. Mae'r taliadau i mewn i'r gronfa bensiwn ac allan ohoni yn cael eu mantoli i ddim bob blwyddyn trwy dderbyn cyfraniadau ychwanegol o gronfa gyffredinol yr heddlu, sydd yn ei dro yn cael ei ad-dalu gan grant penodol gan y Swyddfa Gartref (grant atodol). Derbynnir y grant hwn gan y comisiynydd a'i drosglwyddo i'r prif gwnstabl ar ffurf trosglwyddiad o fewn grŵp;
- Nid yw datganiadau ariannol y gronfa bensiwn yn ystyried rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol ar ôl 31 Mawrth 2025. Fodd bynnag, cyflwynir y rhain ar y fantolen o dan 'Rhwymedigaethau hirdymor eraill', gyda datgeliadau manwl yn Nodyn 37 – Cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio.

## Nodiadau i'r cyfrifon

### 1. Polisiâu cyfrifyddu

#### Egwyddorion cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion y grŵp ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2025. Mae'n ofynnol i'r comisiynydd baratoi datganiad o gyfrifon blynyddol ar gyfer ei hun a'r grŵp gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'u diwygiwyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arfer hwn yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25, a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y datganiad o gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu drwy ailbrisio rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

#### Addasiadau cyfnod blaenorol, newidiadau mewn polisiâu cyfrifyddu ac amcangyfrifon a gwallau

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newidiadau mewn polisiâu cyfrifyddu neu i gywiro gwallau perthnasol. Rhoddir cyfrif am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol ac yn y dyfodol y bydd y newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau mewn polisiâu cyfrifyddu oni bai bod hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu lle mae'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill ar y sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y grŵp. Lle gwneir newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed.

Mae gwallau sylweddol a ddarganfyddir yn ffigurau cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

#### Croniadau incwm a gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid yn unig pan wneir neu geir taliadau arian parod. Yn benodol:

- Caiff refeniw o werthu nwyddau ei gydnabod pan fydd y grŵp yn trosglwyddo risgiau a gwobrau sylweddol perchnogaeth i'r prynwr ac mae'n debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r grŵp.
- Caiff refeniw o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan fydd y grŵp yn gallu mesur yn ddibynadwy ganran cwblhau'r trafodiad a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r grŵp.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio. Lle mae bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'r dyddiad y'u defnyddir, cânt eu cario fel rhestrau eiddo ar y fantolen.
- Mae treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau.

- Mae llog y gellir ei dderbyn ar fuddsoddiadau ac yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrif fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian a bennir gan y contract.
- Lle mae refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad oes arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, mae dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y fantolen. Lle mae'n bosibl na fydd dyledion yn cael eu talu, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na fydd o bosibl yn cael ei gasglu.

### **Gorbenion a gwasanaethau cymorth**

Codir costau gorbenion a gwasanaethau cymorth ar segmentau gwasanaeth yn unol â threfniadau'r grŵp ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

### **Eitemau eithriadol**

Pan fo eitemau incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'u swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y grŵp.

### **Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiad o gyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- Y rhai sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r datganiad o gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r datganiad o gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, datgelir yn y nodiadau natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad awdurdodi cyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiad o gyfrifon.

### **Eiddo, peiriannau ac offer**

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, peiriannau ac offer ei gyfalafu ar sail croniadau. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i ddarparu buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. gwaith atgyweirio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul pan eir iddo.

Mae gwariant sy'n is na lefel de minimis o £6,000 yr eitem yn cael ei drin fel refeniw a'i godi pan eir iddo.

Mae asedau'n cael eu mesur i ddechrau ar gost ac yna'n cael eu cario yn y fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Tir – gwerth teg;
- Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol;
- Adeiladau gweithredol – gwerth teg; Asedau anarbenigol – gwerth defnydd presennol; Asedau arbenigol – cost amnewid dibrisiedig;

- Asedau dros ben – gwerth teg – a adolygir yn flynyddol;
- Asedau a gedwir i'w gwerthu – gwerth teg – adolygir yn flynyddol;
- Eiddo buddsoddi – gwerth teg – adolygir yn flynyddol;
- Pob ased gwerth teg arall – yn cael ei ailbrisio bob pedair blynedd ac wedi'i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol;
- Cerbydau, offer a dodrefn – cost hanesyddol.

Caiff cynnydd mewn prisiau eu cyfateb gan gredydau i'r Gronfa ailbrisio wrth gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Mae'r Gronfa ailbrisio wrth gefn yn cynnwys enillion ailbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y Cyfrif addasu cyfalaf.

Asesir asedau ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai fod amhariad ar ased. Lle mae arwyddion yn bodoli ac amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn sylweddol, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, lle mae hyn yn llai na swm cario ymlaen yr ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Lle nodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- Lle mae balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa ailbrisio wrth gefn, mae swm cario ymlaen yr ased yn cael ei leihau yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig).
- Lle nad oes balans yn y Gronfa ailbrisio wrth gefn neu falans annigonol, mae swm cario ymlaen yr ased yn cael ei leihau yn erbyn y llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant ar yr holl asedau eiddo, peiriannau ac offer trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol ar sail llinell syth. Mae bywydau economaidd defnyddiol asedau a'u gwerthoedd gweddilliol wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| Categori ased                         | Oes economaidd ddefnyddiol       | Gwerth gweddilliol |
|---------------------------------------|----------------------------------|--------------------|
| Eiddo                                 |                                  |                    |
| Tir                                   | Dim dibrisiant                   | Dim dibrisiant     |
| Adeiladau gweithredol                 | 10 i 155 mlynedd                 | Dim                |
| Eiddo buddsoddi                       | Dim dibrisiant                   | Dim dibrisiant     |
| Asedau dros ben                       | 10 i 155 mlynedd                 | Dim                |
| Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | Dim dibrisiant                   | Dim dibrisiant     |
| Asedau a gedwir i'w gwerthu           | Dim dibrisiant                   | Dim dibrisiant     |
| Asedau hawl defnyddio ased            | Yn seiliedig ar gyfnod y brydles | Dim                |
| Badau                                 |                                  |                    |
| Bad 1 – Corff                         | 32 o flynyddoedd                 | Dim                |
| Bad 2 – Injan                         | 12 o flynyddoedd                 | Dim                |
| Bad 2                                 | 10 mlynedd                       | Dim                |
| Cerbydau                              |                                  |                    |
| Ymateb cyflym                         | 3 blynedd                        | Dim                |
| Arall                                 | 3 i 5 mlynedd                    | Dim                |
| Offer                                 |                                  |                    |
| Cyfrifiadur ac offer arall            | 5 mlynedd                        | Dim                |
| Asedau anniriaethol                   |                                  |                    |
| Arall                                 | 3 i 5 mlynedd                    | Dim                |

Pan fydd gan eitem o eiddo, peiriannau ac offer gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân.

Mae'r grŵp wedi cymhwyso'r terfynau de-minimis canlynol, ac nid yw'r gydran yn cael ei meintioli ar wahân oddi tanynt:

| Bywyd y gydran (blynyddoedd) | 0-10 | 10-15 | 15-20 | 20-30 | 30-40 | Dros 40 |
|------------------------------|------|-------|-------|-------|-------|---------|
| De minimis (£'000)           | 50   | 100   | 200   | 300   | 750   | 1,000   |

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa ailbrisio wrth gefn i'r Cyfrif addasu cyfalaf.

### Asedau dros ben

Asedau dros ben yw'r rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n weithredol yn y busnes (fel eiddo gwag) ac na ellir eu dosbarthu fel "asedau a gedwir i'w gwerthu". Bydd asedau dros ben yn cael eu mesur ar werth teg ar bob dyddiad adrodd, yn seiliedig ar y swm y gellid cyfnewid yr ased rhwng partïon gwybodus hyd braich. Mae enillion a cholledion ar ailbrisio yn cael eu postio i'r llinell Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Defnyddir yr un driniaeth i enillion a cholledion wrth waredu.

### Gwarediadau ac asedau a gedwir i'w gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cario ymlaen ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel ased a ddelir i'w gwerthu. Caiff yr ased ei ailbrisio yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar y swm sydd isaf a gwerth teg namyn costau gwerthu. Lle mae gostyngiad dilynol i werth teg namyn costau gwerthu, caiff y golled ei phostio i'r llinell Gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dim ond hyd at swm unrhyw golledion blaenorol a gydnabyddwyd yn y Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar asedau a gedwir i'w gwerthu.

Mae symiau a dderbynnir am waredu unrhyw ased sy'n fwy na £10,000 yn cael eu categoreiddio fel derbynebion cyfalaf. Mae angen credydu balans y derbyniadau i'r Gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn, a dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir ei ddefnyddio (neu ei osod o'r neilltu i leihau angen sylfaenol y grŵp i fenthycu – y gofyniad ariannu cyfalaf).

### **Taliadau i refeniw ar gyfer asedau anghyfredol**

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ddebydu â'r symiau canlynol i gofnodi'r gost o ddal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.
- Colledion ailbrisio ac amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa ailbrisio wrth gefn y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn.

### **Eiddo buddsoddi**

Eiddo buddsoddi yw'r eiddo a ddefnyddir i ennill rhent a/neu arbrisiant cyfalaf yn unig. Mesurir eiddo buddsoddi i ddechrau ar gost ac wedi hynny ar werth teg, yn seiliedig ar y swm y gellid cyfnewid yr ased amdano rhwng partïon gwybodus hyd braich. Mae enillion a cholledion ar ailbrisio yn cael eu postio i'r llinell Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Defnyddir yr un driniaeth i enillion a cholledion wrth waredu.

### **Cyfrifyddu ar gyfer cyfraniad blynyddol o refeniw**

Nid yw'n ofynnol i'r grŵp godi'r dreth gyngor i ariannu colledion dibrisiant, ailbrisio a lleihad mewn gwerth neu amorteiddiadau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly mae dibrisiant, ailbrisiant a cholledion

amhariad ac amorteiddiad yn cael eu disodli gan y cyfraniad ym malans y gronfa gyffredinol trwy addasu trafodiadau gyda'r Cyfrif addasu cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

### Asedau anniriaethol

Mae gwariant ar asedau anariannol nad oes iddynt sylwedd ffisegol ond a reolir gan y grŵp o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd) yn cael ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol yn llifo o'r ased anniriaethol i'r grŵp.

Mesurir asedau anniriaethol i ddechrau ar gost. Dim ond pan fydd modd pennu gwerth teg yr asedau a ddelir gan y grŵp drwy gyfeirio at farchnad weithredol y caiff symiau eu hailbrisio. Yn ymarferol, nid oes unrhyw ased anniriaethol a ddelir gan y grŵp yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly cânt eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio.

### Darpariaeth isafswm refeniw

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r comisiynydd neilltuo swm o refeniw bob blwyddyn i ddarparu ar gyfer ad-dalu dyled. Gelwir hyn yn ddarpariaeth isafswm refeniw. Mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw yn cael ei fesur gan yr angen sylfaenol i fenthycu yn hytrach na'r ddyled wirioneddol. Mae'n ofynnol i gomisiynwyr baratoi datganiad blynyddol o'u polisi ar wneud darpariaeth isafswm refeniw yn unol â chanllawiau statudol a dylid ei gyfrifo ar sail ddarbodus. Wele'r polisi ar gyfer 2024/2025:

#### **DATGANIAD O'R DDARPARIAETH ISAFSWM REFENIW BLYNYDDOL**

Mae'r polisi canlynol wedi'i osod gan y comisiynydd mewn perthynas â darpariaeth isafswm refeniw ar gyfer 2024/2025.

#### **Benthycu darbodus - dull dibrisio**

Mae darpariaeth isafswm refeniw i fod yn gyfartal â'r ddarpariaeth sy'n ofynnol yn unol â chyfrifyddu dibrisiant mewn perthynas â'r ased y mae gwariant wedi'i ariannu arno gan fenthycu darbodus neu drefniadau credyd digymorth. Mae hyn yn adlewyrchu oes ddefnyddiol yr ased a amcangyfrifwyd fel 50 mlynedd mewn perthynas ag asedau ystadau, 10 mlynedd mewn perthynas ag asedau seilwaith TG (e.e. ystafell reoli, system rheoli cofnodion) a phum mlynedd ar gyfer asedau TG eraill.

- (a) Bydd darpariaeth isafswm refeniw yn parhau i gael ei wneud yn flynyddol hyd nes bod swm cronnus darpariaeth o'r fath yn hafal i'r gwariant a ariannwyd yn wreiddiol.
- (b) Wrth waredu'r ased, ni fydd swm y derbyniad cyfalaf yn cael ei gymryd i'r cyfrif refeniw a bydd y comisiynydd yn cydymffurfio â gofynion arferol deddf 2003 ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf.
- (c) Lle mae canran y gwariant ar yr ased a gyllidir gan fenthycu darbodus neu drefniadau credyd digymorth yn llai na 100%, bydd darpariaeth isafswm refeniw yn hafal i'r un ganran o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan gyfrifo dibrisiant.

## **Offerynnau ariannol**

### Rhwymedigaethau ariannol

Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar werth teg a chânt eu cario yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae taliadau blyneddol i'r datganiad incwm a gwariant ar gyfer llog taladwy yn seiliedig ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y swm a gyflwynir yn y fantolen yw'r prifswm sy'n weddill ynghyd â llog cronedig.

### Asedau ariannol

Caiff benthyciadau a symiau derbyniadwy eu mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blyneddol i'r datganiad incwm a gwariant ar gyfer llog y gellir ei dderbyn yn seiliedig ar swm cario ymlaen yr ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau y mae'r grŵp wedi'u gwneud, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y fantolen yw'r prif swm sy'n ddyledus ynghyd â llog cronedig.

### Trosi arian tramor

Lle bo'r grŵp wedi ymrwymo i drafodiad yn defnyddio arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar y dyddiad y daeth y trafodiad i rym.

## **Rhestrau eiddo**

Mae rhestr eiddo wedi'i chynnwys yn y fantolen am bris cost cyfredol. Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 2 yn nodi y dylid mesur rhestrau eiddo yn ôl y gost isaf a'r gwerth gwiredadwy net. Nid yw'r polisi felly yn cydymffurfio ag IAS 2, ond nid yw'r gwahaniaeth yn sylweddol.

## **Arian parod ac arian sy'n cyfateb i arian parod**

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb o roi rhybudd o ddim mwy na 24 awr.

Mae arian sy'n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol sy'n hawdd eu trosi'n symiau hysbys o arian parod ac a gedwir at ddiben cyflawni ymrwymadau arian parod tymor byr yn hytrach nag at ddibenion buddsoddi neu ddibenion eraill.

## **Darpariaethau a rhwymedigaethau digwyddiadol**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i'r grŵp sy'n fwy na thebyg yn gofyn am setliad trwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial gwasanaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r prif gwnstabl y bydd eu bodolaeth ond yn cael eu cadarnhau gan ddigwyddiad neu ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu fel arall, nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y prif gwnstabl. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen llif allan o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Ni chydabyddir rhwymedigaethau digwyddiadol yn y fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

## **Cronfeydd wrth gefn**

Mae symiau a neilltuwyd at ddibenion nad ydynt yn perthyn i'r diffiniad o ddarpariaethau yn cael eu hystyried yn gronfeydd wrth gefn. Mae cronfeydd refeniw ar gael i ariannu gwariant. Nid yw rhai

cronfeydd cyfalaf wrth gefn a grëwyd o ganlyniad i'r cynllun cyfrifyddu cyfalaf ar gael i dalu am wariant cyfredol ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Cronfa ailbrizio wrth gefn sy'n cofnodi'r enillion cronedig ar yr asedau sefydlog a ddelir gan y grŵp sy'n deillio o gynnydd mewn gwerth, i'r graddau nad yw'r enillion hyn wedi'u defnyddio gan symudiadau dilynol tuag i lawr mewn gwerth;
- Cyfrif addasu cyfalaf, sy'n darparu mecanwaith mantoli rhwng y gwahanol gyfraddau y caiff asedau eu dibrisio yn unol â nhw a'u hariannu drwy'r system rheolaethau cyfalaf, drwy gronni:
  - Ar yr ochr ddebyd – lleihad mewn cost hanesyddol asedau sefydlog wrth iddynt gael eu defnyddio gan ddibrisiant ac amhariadau neu eu dileu wrth eu gwaredu;
  - Ar yr ochr credyd – yr adnoddau sydd wedi eu neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf.

### **Trefniadau ar y cyd – Cyfrifyddu am gyfuno trefniadau ar y cyd**

Lle mae'r comisiynydd neu'r prif gwnstabl wedi ymrwymo i drefniadau cydweithredol gyda chomisiynwyr a phrif gwnstabliaid eraill, mae asesiad wedi'i wneud yn erbyn cyd-drefniant IFRS 11 i bennu'r driniaeth gyfrifyddu briodol. Mae IFRS 11 yn ei gwneud yn ofynnol i bob trefniant o'r fath gael ei ddosbarthu naill ai fel mentrau ar y cyd neu weithrediadau ar y cyd. Mae holl drefniadau o'r fath yn cael eu dosbarthu fel gweithrediadau ar y cyd lle mae gan y comisiynydd neu'r prif gwnstabl hawl i'w gyfran deg o asedau a rhwymedigaethau'r cydweithrediad.

Ceir rhagor o fanylion o dan y nodyn Trefniadau Cydweithredol.

### **Buddion i weithwyr**

#### Buddion taladwy yn ystod cyflogaeth

Buddion tymor byr cyflogeion yw'r rhai sydd i'w setlo o fewn deuddeg mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, bonysau a buddion anariannol (e.e. ceir) i weithwyr presennol ac fe'u cydnabyddir fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau (gan gynnwys amser o'r gwaith yn lle tâl a gwyliau hyblyg) a enillwyd gan weithwyr ond nas cymerwyd cyn diwedd y flwyddyn, y gall gweithwyr eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar gyfraddau cyflog sy'n gymwys yn y flwyddyn gyfrifo ganlynol, sef y cyfnod y mae'r gweithiwr yn cymryd y buddiant ynddo. Mae'r croniad yn cael ei godi ar y Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau, ond yna'n cael ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel bod buddion gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau yn digwydd ynddi.

#### Buddion terfynu

Mae buddion terfynu yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y comisiynydd a'r prif gwnstabl i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol.

Lle mae buddion terfynu yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans y gronfa gyffredinol gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y grŵp i'r gronfa bensiwn neu bensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol. Yn y datganiad symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, mae angen dyraniadau i'r gronfa bensiwn ac ohoni i ddileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu pensiwn a rhoi debydau yn eu lle am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

### Buddion ôl-gyflogaeth

Mae gan swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yr opsiwn o berthyn i un o ddau gynllun pensiwn ar wahân sy'n berthnasol iddynt:

- Cynllun Pensiwn yr Heddlu, a weinyddir drwy Gronfa Bensiwn yr Heddlu.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion wedi'u diffinio i aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth i weithwyr weithio i'r grŵp.

Mae'r cynllun pensiwn heddlu hwn 'heb ei ariannu' sy'n golygu nad oes unrhyw asedau buddsoddi yn cael eu cronni i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol, ac felly nid oes unrhyw ddarpariaeth i fodloni'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol wedi'i chynnwys yn y fantolen. Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n briodol i'r grŵp wedi'u cynnwys yn y fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant gweithwyr ac ati, a rhagamcanion o enillion ar gyfer gweithwyr presennol.

### Buddion yn ôl disgrisiwn

Mae gan y comisiynydd a'r prif gwnstabl hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau yn ôl disgrisiwn o fuddion ymddeol yn achos ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff yn cael eu cronni ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad a chyfrifir amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r cynllun pensiwn llywodraeth leol.

### **Grantiau a chyfraniadau'r llywodraeth**

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, mewn rhandaliadau neu mewn ôl-daliadau, cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r grŵp pan fo sicrwydd rhesymol:

- Bydd y grŵp yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau; a
- Bydd y grantiau neu'r cyfraniadau yn cael eu derbyn.

Mae arian a roddwyd ymlaen llaw fel grantiau a chyfraniadau nad yw amodau wedi'u bodloni ar eu cyfer yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwy. Pan fodlonir amodau, mae'r grant neu gyfraniad yn cael ei gredydu i'r gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw y gellir eu priodoli) neu Drethiant ac incwm grant amhenodol (grantiau refeniw heb eu clustnodi a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle mae grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o falans y gronfa gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i'r Gronfa grantiau cyfalaf wrth gefn heb eu cymhwyso. Lle mae wedi'i gymhwyso, caiff ei bostio i'r Cyfrif addasu cyfalaf. Trosglwyddir symiau yn y Gronfa grantiau cyfalaf wrth gefn heb eu cymhwyso i'r Cyfrif addasu cyfalaf unwaith y byddant wedi'u cymhwyso i ariannu gwariant cyfalaf.

### **Prydlesau**

O 1 Ebrill 2024 ymlaen, gweithredwyd IFRS 16 sy'n arwain at drefniadau a gyfrifwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredu (h.y. heb gydnabod y cerbydau, y peiriannau, yr offer, yr eiddo a'r tir a

brydleswyd fel ased, a rhenti yn y dyfodol fel rhwymedigaeth), bellach yn cael eu cynnwys ar y fantolen fel ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth brydles.

Bydd pob prydles a ddosbarthwyd yn flaenorol, ar 31 Mawrth 2024, fel prydles weithredu yn cael ei hailgategoreiddio, yn amodol ar unrhyw eithriadau, i ased hawl ei defnyddio ar y fantolen ynghyd â rhwymedigaeth brydles.

### **Prydlesau gweithredu**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau wedi mabwysiadu'r safon orfodol newydd IFRS 16 o 1 Ebrill 2024. Mae peiriannau, eiddo ac offer sy'n dod o dan gwmpas IFRS 16 bellach wedi'u hailddosbarthu fel asedau hawl i ddefnyddio ar y fantolen. Yn unol ag IFRS16, lle ystyrir bod prydlesau a ddosbarthwyd yn flaenorol fel prydlesau gweithredu o dan IAS17 yn werth isel (islaw cost wreiddiol ased o £10,000) neu os oes gan y brydles lai na 12 mis i redeg, yna ni fydd y rhain yn cael eu cydnabod ar y fantolen ac yn cael eu hystyried 'y tu allan i'r cwmpas'. Yn yr achosion hyn 'y tu allan i'r cwmpas', mae rhent yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul.

### **Ased â hawl ei ddefnyddio**

Mae'r comisiynydd wedi mabwysiadu prydlesau IFRS 16 yn weithredol o 1 Ebrill 2024. Mae effaith IFRS 16 bellach yn ei gwneud yn ofynnol i bob prydles sylweddol gael ei chyfrif gan ddefnyddio'r dull caffael, gan gydnabod yr hawliau a gafwyd i ddefnyddio ased. Mae mabwysiadu'r safon newydd wedi arwain at gydnabod ased hawl ei defnyddio a rhwymedigaeth prydles gysylltiedig ar y fantolen mewn perthynas â phrydlesu gweithredu blaenorol. Mae contract yn brydles, neu'n cynnwys prydles, os yw'r contract yn cyfleu'r hawl i reoli defnyddio ased a nodwyd am gyfnod o amser yn gyfnewid am ystyriaeth.

Mae'r comisiynydd wedi dewis cymhwyso eithriadau cydnabyddiaeth i asedau gwerth isel (o dan £10,000 pan fyddant yn newydd) ac i brydlesi tymor byr h.y. prydlesi presennol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025 neu cyn hynny, a phrydlesi newydd sy'n para llai na 12 mis.

Fel y caniateir gan y Cod, mae prydlesi asedau gwerth isel (gwerth pan fyddant yn newydd yn llai na £10,000) a phrydlesi tymor byr o 12 mis neu lai yn cael eu cofnodi fel treuliau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yn ogystal â thaliadau amrywiol sy'n ddibynnol ar berfformiad neu ddefnydd, taliadau 'y tu allan i gontract' a chydannau gwasanaeth nad ydynt yn brydles.

Rhoddir cyfrif am eiddo, peiriannau ac offer a gydnabyddir o dan IFRS16 gan ddefnyddio'r polisïau a gymhwysir yn gyffredinol i asedau o'r fath, yn amodol ar ddibrisiant yn cael ei godi dros gyfnod y brydles os yw hyn yn fyrrach na bywyd defnyddiol amcangyfrifedig yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r comisiynydd ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Mae'r comisiynydd yn cydnabod rhwymedigaethau prydles a fesurir ar werth presennol taliadau prydles, gan ddisgowntio ar gyfradd benthyca cynyddrannol y comisiynydd lle na ellir pennu'r gyfradd llog ymhlyg yn rhwydd, hynny yw, y gyfradd sy'n ofynnol i fenthyca arian, dros gyfnod tebyg, gyda gwarant tebyg, i gaffael asedau o werth tebyg.

Mesurir yr ased hawl ei ddefnyddio yn ôl swm rhwymedigaeth y brydles, wedi'i addasu ar gyfer unrhyw ragdaliadau, costau uniongyrchol yr aed iddynt, a chymhellion prydles a dderbyniwyd. Ar gyfer prydlesau hedyn pupur, enwol neu ystyriaeth sero, mesurir yr ased ar werth teg.

## Treth ar werth (TAW)

Mae TAW sy'n daladwy wedi'i gynnwys fel treuliau dim ond i'r graddau nad yw'r grŵp yn gallu eu hadennill oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Nid yw'r TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i gynnwys mewn incwm.

## 2. Addasiadau cyfnod blaenorol

### Cronfa wrth gefn cyfran deg cydweithio

Nododd archwiliad o gyfrifon 2024/25 wall yn y driniaeth gyfrifyddu o addasiadau cyfran deg cydweithio.

Mae cronfeydd wrth gefn sy'n gysylltiedig â threfniadau ar y cyd wedi'u prosesu'n anghywir drwy'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn hytrach na chael eu hadlewyrchu'n briodol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae'r camddatganiad hwn wedi arwain at glirio'r balans wrth gefn na ellir ei ddefnyddio yn anghywir i £dim bob blwyddyn ac mae'r driniaeth gyfrifyddu hon wedi'i dilyn ers dechrau'r trefniadau cydweithio yn 2014/15.

Mae goblygiad y gwall hwn yn ei gwneud yn ofynnol ailddatgan symiau cymharol y flwyddyn flaenorol ar gyfer yr holl brif ddatganiadau yr effeithir arnynt a'r nodiadau datgelu cysylltiedig gan y bydd hyn yn caniatáu cymhariaeth 'tebyg am debyg' rhwng blynyddoedd ariannol. Pe na bai'r ailddatganiad ar gyfer 2023/24 wedi'i gynnal, byddai'r cyfrifon yn dangos sefyllfa sylweddol anghywir ar gyfer 2024/25 gan y byddai'r ffordd sylfaenol y mae'r addasiadau'n cael eu prosesu yn wahanol ar gyfer pob blwyddyn.

Mae'r tabl isod yn dangos y balansau cronol ar gyfer y gronfa wrth gefn cyfran deg cydweithio fel yr adroddwyd yn flaenorol, tra bod yr ail dabl yn dangos y balansau wrth gefn wedi'u hailddatgan gan ddefnyddio'r driniaeth gyfrifyddu gywir.

| Cronfa Cyfran Deg Cydweithio Wrth Gefn (fel y nodwyd yn flaenorol) | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|--------------------------------------------------------------------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|
|                                                                    | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   |
| Balans agoriadol ar 1 Ebrill                                       | 0       | 16      | 30      | 154     | 43      | 342     | 378     | (110)   | (120)   | (364)   |
| Gwrthdroi addasiad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol         | 0       | (16)    | (30)    | (154)   | (43)    | (342)   | (378)   | 110     | 120     | 364     |
| Symiau wedi'u haddasu ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol               | 16      | 30      | 154     | 43      | 342     | 378     | (110)   | (120)   | (364)   | 3       |
| Balans cau ar 31 Mawrth                                            | 16      | 30      | 154     | 43      | 342     | 378     | (110)   | (120)   | (364)   | 3       |

| Cronfa Cyfran Deg Cydweithio Wrth Gefn (ailddatganwyd) | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|--------------------------------------------------------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|
|                                                        | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   | £'000   |
| Balans agoriadol ar 1 Ebrill                           | 0       | 16      | 46      | 200     | 243     | 585     | 963     | 853     | 733     | 369     |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn                           | 16      | 30      | 154     | 43      | 342     | 378     | (110)   | (120)   | (364)   | 3       |
| Balans cau ar 31 Mawrth                                | 16      | 46      | 200     | 243     | 585     | 963     | 853     | 733     | 369     | 372     |

Mae'r balans agoriadol yn y gronfa wrth gefn cyfran deg cydweithio yn 2024/25 wedi'i addasu i £372,000 fel y dangosir yn y tabl uchod.

Dyma'r effaith ar bob un o'r prif ddatganiadau ar gyfer 2023/24:

### Dadansoddiad o wariant a chyllid

|                                                           | 2023/24 (fel y nodwyd yn flaenorol)              |               |                                                          | 2023/24 (ailddatganwyd)                          |               |                                                          | Cywiriad                                         |              |                                                          |
|-----------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|---------------|----------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|---------------|----------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|--------------|----------------------------------------------------------|
|                                                           | Gwariant Net sy'n Daladwy i'r Gronfa Gyffredinol | Addasiadau    | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Gwariant Net sy'n Daladwy i'r Gronfa Gyffredinol | Addasiadau    | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Gwariant Net sy'n Daladwy i'r Gronfa Gyffredinol | Addasiadau   | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr |
|                                                           | £'000                                            | £'000         | £'000                                                    | £'000                                            | £'000         | £'000                                                    | £'000                                            | £'000        | £'000                                                    |
| Cyflog a Phensiynau Swyddogion yr Heddlu                  | 80,848                                           | (3,547)       | 77,301                                                   | 80,848                                           | (2,984)       | 77,865                                                   | 0                                                | 563          | 564                                                      |
| Goramser Swyddogion yr Heddlu                             | 3,253                                            | 0             | 3,253                                                    | 3,253                                            | 0             | 3,253                                                    | 0                                                | 0            | 0                                                        |
| Cyflog a Phensiynau Staff yr Heddlu                       | 39,277                                           | (57)          | 39,220                                                   | 39,277                                           | 1,197         | 40,474                                                   | 0                                                | 1,254        | 1,254                                                    |
| Goramser Staff yr Heddlu                                  | 209                                              | 0             | 209                                                      | 209                                              | 0             | 209                                                      | 0                                                | 0            | 0                                                        |
| Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr               | 2,704                                            | 0             | 2,704                                                    | 2,704                                            | 175           | 2,878                                                    | 0                                                | 175          | 174                                                      |
| Costau Adeiladau                                          | 5,865                                            | (411)         | 5,454                                                    | 5,865                                            | (413)         | 5,451                                                    | 0                                                | (2)          | (3)                                                      |
| Costau Cludiant                                           | 2,409                                            | (5)           | 2,404                                                    | 2,409                                            | 140           | 2,549                                                    | 0                                                | 145          | 145                                                      |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau                                | 13,110                                           | 44            | 13,154                                                   | 13,110                                           | 618           | 13,729                                                   | 0                                                | 574          | 575                                                      |
| Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract                       | 7,860                                            | 750           | 8,610                                                    | 7,860                                            | (648)         | 7,211                                                    | 0                                                | (1,398)      | (1,399)                                                  |
| Costau Ariannu Cyfalaf                                    | 4,743                                            | 413           | 5,156                                                    | 4,743                                            | 413           | 5,155                                                    | 0                                                | 0            | (1)                                                      |
Bydd asedau â hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau prydles wedi'u cyfrifo fel pe bai IFRS 16 wedi bod yn berthnasol erioed ond wedi'u cydnabod ym mlwyddyn y mabwysiadu ac nid drwy addasu ffigurau'r flwyddyn flaenorol, mae ganddynt eu colofn eu hunain o fewn Nodyn 14.

Mae rhwymedigaeth prydles wedi'i chyfrifo gan ddefnyddio'r hyn sy'n cyfateb i gyfradd gyfartalog bwysoli y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus o 4.69%.

#### Cydnabod asedau hawl ei ddefnyddio o fewn eiddo, peiriannau ac offer

| Grŵp<br>2023–2024<br>£'000 | Comisiynydd<br>2023–2024<br>£'000 |                                              | Grŵp<br>2024–2025<br>£'000 | Comisiynydd<br>2024–2025<br>£'000 |
|----------------------------|-----------------------------------|----------------------------------------------|----------------------------|-----------------------------------|
| 0                          | 0                                 | Cydnabod ased hawl ei ddefnyddio ar 1 Ebrill | 1,823                      | 1,823                             |
| 0                          | 0                                 | Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn            | 0                          | 0                                 |
| 0                          | 0                                 | Dibrisiant                                   | (160)                      | (160)                             |
| 0                          | 0                                 | Gwarediadau                                  | 0                          | 0                                 |
| <b>0</b>                   | <b>0</b>                          | <b>Cyfanswm</b>                              | <b>1,663</b>               | <b>1,663</b>                      |

#### Bydd y taliadau prydles gofynnol yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

| Taliadau prydles |              |              |              |                                                   | Rhwymedigaethau prydles |             |              |              |
|------------------|--------------|--------------|--------------|---------------------------------------------------|-------------------------|-------------|--------------|--------------|
| Grŵp             | Comisiynydd  | Grŵp         | Comisiynydd  |                                                   | Grŵp                    | Comisiynydd | Grŵp         | Comisiynydd  |
| 2023–2024        | 2023–2024    | 2024–2025    | 2024–2025    |                                                   | 2023–2024               | 2023–2024   | 2024–2025    | 2024–2025    |
| £'000            | £'000        | £'000        | £'000        |                                                   | £'000                   | £'000       | £'000        | £'000        |
| 192              | 192          | 204          | 204          | Heb fod yn hwyrach na blwyddyn                    | 0                       | 0           | 129          | 129          |
| 443              | 443          | 736          | 736          | Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 0                       | 0           | 335          | 335          |
| 746              | 746          | 1,321        | 1,321        | Hwyrach na phum mlynedd                           | 0                       | 0           | 1,139        | 1,139        |
| <b>1,381</b>     | <b>1,381</b> | <b>2,261</b> | <b>2,261</b> | <b>Cyfanswm</b>                                   | <b>0</b>                | <b>0</b>    | <b>1,603</b> | <b>1,603</b> |

## Trafodion o dan brydlesi

Ysgwyddodd y Grŵp/Comisiynydd y treuliau a'r llif arian canlynol mewn perthynas â phrydlesi:

| Grŵp<br>2023–2024<br>£'000 | Comisiynydd<br>2023–2024<br>£'000 |                                                                | Grŵp<br>2024–2025<br>£'000 | Comisiynydd<br>2024–2025<br>£'000 |
|----------------------------|-----------------------------------|----------------------------------------------------------------|----------------------------|-----------------------------------|
| 0                          | 0                                 | Llog ar rwymedigaethau prydles                                 | 72                         | 72                                |
| 0                          | 0                                 | Treuliau sy'n ymwneud â phrydlesau tymor byr                   | 21                         | 21                                |
| 0                          | 0                                 | Treuliau sy'n ymwneud â phrydlesau eithriedig o werthoedd isel | 13                         | 13                                |
| <b>0</b>                   | <b>0</b>                          | <b>Cyfanswm</b>                                                | <b>106</b>                 | <b>106</b>                        |

## Grŵp/comisiynydd fel prydlesai

### Prydlesau gweithredu

Mae'r grŵp/comisiynydd yn prydlesu rhan o'i bortffolio eiddo i ddarparu llety addas a fforddiadwy i awdurdodau sector cyhoeddus eraill.

Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n dderbyniadwy o dan brydlesi na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| Grŵp<br>2023–2024<br>£'000 | Comisiynydd<br>2023–2024<br>£'000 |                                                   | Grŵp<br>2024–2025<br>£'000 | Comisiynydd<br>2024–2025<br>£'000 |
|----------------------------|-----------------------------------|---------------------------------------------------|----------------------------|-----------------------------------|
| 293                        | 293                               | Heb fod yn hwyrach na blwyddyn                    | 297                        | 297                               |
| 1,058                      | 1,058                             | Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 1,035                      | 1,035                             |
| 640                        | 640                               | Hwyrach na phum mlynedd                           | 491                        | 491                               |
| <b>1,991</b>               | <b>1,991</b>                      | <b>Cyfanswm</b>                                   | <b>1,823</b>               | <b>1,823</b>                      |

## 35. Colledion amhariad

Nid oedd unrhyw golledion amhariad yn ystod 2024/2025 (2023/2024: £dim).

## 36. Buddion terfynu

Talwyd tri pheccyn ymadael (gan gynnwys taliad yn lle rhybudd) yn ystod 2024/25 (2023/24: 19). Bu cynnydd yn 2023/2024 oherwydd adolygiad arbedion yr heddlu.

Mae'r bandiau £0-20,000 a £20,001-40,000 wedi'u cyfuno er mwyn osgoi gallu nodi pecynnau ymadael unigol yn 2024/2025.

Mae cyfanswm y costau o fewn y band £0-40,000 wedi gostwng £1,000 ar gyfer y flwyddyn gymharol 2023/2024 oherwydd gor-groniad.

| Band cost pecyn ymadael   | 2023–2024                                                                 |                                                 |                                                                          | 2024–2025                                                                 |                                                 |                                                                          |
|---------------------------|---------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------|
|                           | Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt (ac eithrio diswyddiadau gorfodol) | Nifer y diswyddiadau gorfodol y cytunwyd arnynt | Cost ymadael (gan gynnwys taliad yn lle rhybudd a diswyddiadau gorfodol) | Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt (ac eithrio diswyddiadau gorfodol) | Nifer y diswyddiadau gorfodol y cytunwyd arnynt | Cost ymadael (gan gynnwys taliad yn lle rhybudd a diswyddiadau gorfodol) |
| Cyferwerth ag amser llawn | Cyferwerth ag amser llawn                                                 |                                                 | £'000                                                                    | Cyferwerth ag amser llawn                                                 | Cyferwerth ag amser llawn                       | £'000                                                                    |
| £0 - £40,000              | 10.0                                                                      | 3.0                                             | 173                                                                      | 3.0                                                                       | 0.0                                             | 51                                                                       |
| £40,001 - £60,000         | 0.0                                                                       | 0.0                                             | 0                                                                        | 0.0                                                                       | 0.0                                             | 0                                                                        |
| £60,001 - £80,000         | 1.0                                                                       | 2.0                                             | 196                                                                      | 0.0                                                                       | 0.0                                             | 0                                                                        |
| £80,001 - £100,000        | 1.0                                                                       | 0.0                                             | 92                                                                       | 0.0                                                                       | 0.0                                             | 0                                                                        |
| £100,001 - £150,000       | 2.0                                                                       | 0.0                                             | 228                                                                      | 0.0                                                                       | 0.0                                             | 0                                                                        |
|                           | <b>14.0</b>                                                               | <b>5.0</b>                                      | <b>689</b>                                                               | <b>3.0</b>                                                                | <b>0.0</b>                                      | <b>51</b>                                                                |

### 37. Cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio

#### Cymryd rhan mewn cynlluniau pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r grŵp yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy hyd nes y bydd gweithwyr yn ymddeol, mae gan y grŵp ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg y mae gweithwyr yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r grŵp yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Sir Caerfyrddin – mae hwn yn gynllun buddion diffiniedig wedi'i ariannu (Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio), sy'n golygu bod y grŵp a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, wedi'i chyfrifo ar lefel a fwriedir i fantoli'r rhwymedigaethau pensiynau gydag asedau buddsoddi.
- Cynllun Pensiwn yr Heddlu – mae hwn yn gynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio buddion diffiniedig heb ei ariannu, o ganlyniad nid oes gan y gronfa unrhyw asedau buddsoddi. Ariennir buddion sy'n daladwy gan gyfraniadau gan gyflogwyr a gweithwyr a thelir unrhyw wahaniaeth rhwng buddion taladwy a chyfraniadau derbyniadwy gan grant atodol gan y Swyddfa Gartref.

#### **Prisio rhwymedigaethau'r cynllun**

Fel rhan allweddol o'r ymarfer llunio datganiad o gyfrifon blyneddol, mae actiwarïaid yn cael eu cyflogi i gynnal asesiad o rwymedigaethau, asedau a chostau pensiwn i'w cynnwys yn y fantolen a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o dan IFRS. Yn draddodiadol cynhaliwyd y rhain ar sail prisiad llawn bob tair blynedd gyda dull treigl ymlaen yn cael ei gymhwyso yn y blyneddoddd interim.

Trafodion sy'n ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth

Mae cost buddion ymddeoliad yn cael ei chydabod yn nghost gwasanaethau a adroddir pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau yn y pen draw.

Fodd bynnag, mae'r tâl y mae'n ofynnol i'r grŵp ei godi yn erbyn y dreth gyngor yn seiliedig ar yr arian parod sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly mae cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei gwrthdroi allan o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r tabl canlynol yn disgrifio trafodion a wnaed yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a balans y gronfa gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

Mae trosglwyddiad o fewn grŵp wedi'i brosesu o gyfrifon y prif gwnstabl i gyfrifon y comisiynydd, gan nad yw'r prif gwnstabl yn gyfrifol am ddal cronfeydd wrth gefn.

| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |                    | Cynllun Pensiwn yr Heddlu |                    |                                                                                                                               | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |                    | Cynllun Pensiwn yr Heddlu |                    |
|----------------------------------|--------------------|---------------------------|--------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|--------------------|---------------------------|--------------------|
| Grŵp                             | Comisiynydd        | Grŵp                      | Comisiynydd        |                                                                                                                               | Grŵp                             | Comisiynydd        | Grŵp                      | Comisiynydd        |
| 2023–2024<br>£'000               | 2023–2024<br>£'000 | 2023–2024<br>£'000        | 2023–2024<br>£'000 |                                                                                                                               | 2024–2025<br>£'000               | 2024–2025<br>£'000 | 2024–2025<br>£'000        | 2024–2025<br>£'000 |
|                                  |                    |                           |                    | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr                                                                                        |                                  |                    |                           |                    |
|                                  |                    |                           |                    | Cost gwasanaethau                                                                                                             |                                  |                    |                           |                    |
| (5,196)                          | (103)              | (16,005)                  | 0                  | Cost gwasanaeth presennol                                                                                                     | (5,225)                          | (122)              | (15,665)                  | 0                  |
| (652)                            | 0                  | 0                         | 0                  | Arall                                                                                                                         | (135)                            | 0                  | 0                         | 0                  |
|                                  |                    |                           |                    | Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi                                                                                          |                                  |                    |                           |                    |
| 613                              | 12                 | (50,672)                  | 0                  | Costau llog net                                                                                                               | 139                              | 3                  | (50,657)                  | 0                  |
| <b>(5,235)</b>                   | <b>(91)</b>        | <b>(66,677)</b>           | <b>0</b>           | <b>Cyfanswm y budd ôl-gyflogaeth a godir ar warged neu ddiffyg o ran darparu gwasanaethau</b>                                 | <b>(5,221)</b>                   | <b>(119)</b>       | <b>(66,322)</b>           | <b>0</b>           |
|                                  |                    |                           |                    | Buddion ôl-gyflogaeth arall a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr                                               |                                  |                    |                           |                    |
|                                  |                    |                           |                    | Ailfesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net yn cynnwys:                                                                  |                                  |                    |                           |                    |
| 11,360                           | 226                | 0                         | 0                  | Elw ar asedau'r cynllun (ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y gost llog net)                                             | (5,286)                          | (124)              | 0                         | 0                  |
| 2,233                            | 44                 | 20,752                    | 0                  | Enillion a cholledion ailfesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau demograffig                                            | 382                              | 9                  | 1,724                     | 0                  |
| 6,993                            | 139                | 36,862                    | 0                  | Enillion a cholledion ailfesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau ariannol                                               | 31,789                           | 743                | 156,114                   | 0                  |
| (781)                            | (16)               | (6,348)                   | 0                  | Enillion/(colledion) ailfesur yn deillio o brofiad                                                                            | (141)                            | (3)                | 40                        | 0                  |
| (20,276)                         | (403)              | 0                         | 0                  | Addasiad gwarged IFRIC 14                                                                                                     | (27,523)                         | (643)              | 0                         | 0                  |
| <b>(5,706)</b>                   | <b>(101)</b>       | <b>(15,411)</b>           | <b>0</b>           | <b>Cyfanswm y buddion ôl-gyflogaeth a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>                                   | <b>(6,000)</b>                   | <b>(137)</b>       | <b>91,556</b>             | <b>0</b>           |
| 0                                | (5,605)            | 0                         | (15,411)           | Costau comisiynu (trosglwyddo o fewn grŵp)                                                                                    | 0                                | (5,863)            | 0                         | 91,556             |
| <b>(5,706)</b>                   | <b>(5,706)</b>     | <b>(15,411)</b>           | <b>(15,411)</b>    | <b>Cyfanswm y gost net</b>                                                                                                    | <b>(6,000)</b>                   | <b>(6,000)</b>     | <b>91,556</b>             | <b>91,566</b>      |
|                                  |                    |                           |                    | Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn                                                                                   |                                  |                    |                           |                    |
| 5,235                            | 5,235              | 66,677                    | 66,677             | Gwrthdroi taliadau net a wnaed i'r gwaged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth yn unol â'r cod | 5,221                            | 5,221              | 66,322                    | 66,322             |
|                                  |                    |                           |                    | Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans y gronfa gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn                               |                                  |                    |                           |                    |
| (5,706)                          | (5,706)            | (35,659)                  | (35,659)           | Cyfraniadau cyflogwyr yn daladwy i'r cynllun                                                                                  | (5,690)                          | (5,690)            | (38,987)                  | (38,987)           |

Addasiad gwarged IFRIC

Roedd mantolen IAS 19 yn dangos gwaged heb gap ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o £58.848 miliwn ar 31 Mawrth 2025.

Mae 'IFRIC 14 – IAS 19 – Y cyfyngiad ar ased buddion diffiniedig, isafswm y gofyniad cyllido a'u rhyngweithio' yn mynd i'r afael â'r graddau y gellir cydnabod gwarged IAS 19 ar y fantolen ac yn nodi pan fydd gan endid warged, y bydd yn mesur yr ased buddion diffiniedig net fel yr isaf o'r canlynol:

- Y gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig;
- uchafswm yr ased, a bennir gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt (IAS 19).

Uchafswm yr ased yw "gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol".

Cyfrifwyd a phenderfynwyd bod angen addasiad i uchafswm asedau. Mae hyn er mwyn atal y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol rhag dangos ased sy'n perthyn i aelodau'r cynllun yn hytrach na'r cynllun ei hun. Mae rhwymedigaeth heb ei hariannu o £310,000 yn weddill.

#### Asedau a rhwymedigaethau pensiynau a gydnabyddir yn y fantolen

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y fantolen sy'n codi o rwymedigaeth y grŵp mewn perthynas â'i gynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| 2024–2025                                                              | Cynllun Pensiwn<br>Llywodraeth Leol<br>£'000 | Cynllun Pensiwn<br>yr Heddlu<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------|---------------------------------------|-------------------|
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig                   | (158,180)                                    | (922,630)                             | (1,080,810)       |
| Gwerth teg asedau'r cynllun                                            | 217,028                                      | 0                                     | 217,028           |
| Addasiad gwarged IFRIC 14                                              | (59,158)                                     | 0                                     | (59,158)          |
| <b>Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth buddion diffiniedig</b> | <b>(310)</b>                                 | <b>(922,630)</b>                      | <b>(922,940)</b>  |

| 2023–2024                                                              | Cynllun Pensiwn<br>Llywodraeth Leol<br>£'000 | Cynllun Pensiwn<br>yr Heddlu<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000  |
|------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------|---------------------------------------|--------------------|
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig                   | (178,496)                                    | (1,053,173)                           | (1,231,669)        |
| Gwerth teg asedau'r cynllun                                            | 208,653                                      | 0                                     | 208,653            |
| Addasiad gwarged IFRIC 14                                              | (30,157)                                     | 0                                     | (30,157)           |
| <b>Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth buddion diffiniedig</b> | <b>0</b>                                     | <b>(1,053,173)</b>                    | <b>(1,053,173)</b> |

#### Rhwymedigaeth pensiynau

Mae'r rhwymedigaeth pensiynau a ddatgelir ar fantolen y grŵp, yn adlewyrchu'r ymrwymiad sylfaenol sydd gan y prif gwnstabl i dalu buddion ymddeol.

Mae cydnabod cyfanswm y rhwymedigaeth yn cael effaith sylweddol ar y gwerth net fel y'i cofnodwyd yn y fantolen. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol y grŵp yn parhau i fod yn iach gan fod pensiynau gwirioneddol a chyfandaliadau gohiriedig yn cael eu talu'n uniongyrchol gan Gyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu, a ariennir gan y Swyddfa Gartref drwy'r comisiynydd. Yn y flwyddyn 2024/2025, bydd y prif gwnstabl

yn gwneud cyfraniad pensiwn o 35.3% (2023/2024: 35.3%) ar gyfer swyddogion yr heddlu ac 16.8% (2023/2024: 16.8%) ar gyfer staff yr heddlu.

#### Cysoni'r symudiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun

|                                                                                                                 | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |                    | Cynllun Pensiwn yr Heddlu |                    |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|--------------------|---------------------------|--------------------|
|                                                                                                                 | 2023–2024<br>£'000               | 2024–2025<br>£'000 | 2023–2024<br>£'000        | 2024–2025<br>£'000 |
| <b>Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun</b>                                                                    | <b>185,385</b>                   | <b>208,653</b>     | <b>0</b>                  | <b>0</b>           |
| Incwm llog                                                                                                      | 8,972                            | 10,309             | 0                         | 0                  |
| Elw/(colled) aifedur - yr enillion ar asedau'r cynllun heb gynnwys y swm sydd wedi'i gynnwys yn y gost llog net | 11,360                           | (5,286)            | 0                         | 0                  |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr                                                                                      | 5,706                            | 5,690              | 35,659                    | 38,987             |
| Cyfraniadau gan weithwyr i'r cynllun                                                                            | 2,006                            | 2,208              | 7,071                     | 7,360              |
| Buddion a dalwyd                                                                                                | (4,653)                          | (4,411)            | (42,730)                  | (46,347)           |
| Arall (os yn berthnasol)                                                                                        | (123)                            | (135)              | 0                         | 0                  |
| <b>Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun</b>                                                                     | <b>208,653</b>                   | <b>217,028</b>     | <b>0</b>                  | <b>0</b>           |

Mae'r rhan fwyaf o'r costau cyflogaeth yn cael eu hysgwyddo gan y prif gwnstabl, felly mae asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth yn aros o fewn cyfrifon y prif gwnstabl a'r grŵp.

#### Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddion diffiniedig)

|                                                                                        | Rhwymedigaethau wedi'u hariannu: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |                    | Rhwymedigaethau heb eu hariannu: Cynllun Pensiwn yr Heddlu |                    |
|----------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|--------------------|------------------------------------------------------------|--------------------|
|                                                                                        | 2023–2024<br>£'000                                                | 2024–2025<br>£'000 | 2023–2024<br>£'000                                         | 2024–2025<br>£'000 |
| <b>Balans agoriadol ar 1 Ebrill</b>                                                    | <b>(175,504)</b>                                                  | <b>(178,496)</b>   | <b>(1,073,421)</b>                                         | <b>(1,053,173)</b> |
| Cost gwasanaeth presennol                                                              | (5,196)                                                           | (5,225)            | (16,005)                                                   | (15,665)           |
| Cost llog                                                                              | (8,359)                                                           | (8,692)            | (50,672)                                                   | (50,657)           |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun                                                  | (2,006)                                                           | (2,208)            | (7,071)                                                    | (7,360)            |
| Enillion/(colledion) aifedur sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 2,233                                                             | 382                | 20,752                                                     | 1,724              |
| Enillion/(colledion) aifedur sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol    | 6,993                                                             | 31,789             | 36,862                                                     | 156,114            |
| Enillion/(colledion) aifedur yn deillio o brofiad                                      | (781)                                                             | (141)              | (6,348)                                                    | 40                 |
| Colledion/(enillion) ar gwtogi                                                         | (529)                                                             | 0                  | 0                                                          | 0                  |
| Buddion a dalwyd                                                                       | 4,653                                                             | 4,411              | 42,730                                                     | 46,347             |
| <b>Balans cloi ar 31 Mawrth</b>                                                        | <b>(178,496)</b>                                                  | <b>(158,180)</b>   | <b>(1,053,173)</b>                                         | <b>(922,630)</b>   |

Gwerth Teg Asedau'r Cynllun (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)

Roedd gan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol asedau fel a ganlyn:

|                                                                | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2025 |
|----------------------------------------------------------------|----------------|----------------|
| Gwerth teg asedau'r cynllun (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) | £'000          | £'000          |
| Arian parod ac arian sy'n cyfateb i arian parod                | 1,044          | 1,953          |
| Offerynnau ecwiti                                              | 151,798        | 157,259        |
| Bondiau                                                        | 19,633         | 19,923         |
| Eiddo                                                          | 25,701         | 22,658         |
| Symiau eraill                                                  | 10,477         | 15,235         |
| <b>Cyfanswm asedau</b>                                         | <b>208,653</b> | <b>217,028</b> |

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar dybiaethau gan gynnwys cyfraddau marwolaethau a lefelau cyflog.

Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Pensiwn yr Heddlu wedi cael eu hamcangyfrif gan Mercer Limited, cwmni annibynnol o actiwariaid.

Y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yw:

| Marwolaethau a rhagdybiaethau eraill                                            | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |           | Cynllun Pensiwn yr Heddlu |           |
|---------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|-----------|---------------------------|-----------|
|                                                                                 | 2023–2024                        | 2024–2025 | 2023–2024                 | 2024–2025 |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr presennol |                                  |           |                           |           |
| Dynion                                                                          | 21.5                             | 21.5      | 25.4                      | 25.6      |
| Merched                                                                         | 23.8                             | 23.9      | 27.9                      | 28.2      |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr y dyfodol |                                  |           |                           |           |
| Dynion                                                                          | 22.9                             | 22.9      | 27.3                      | 27.5      |
| Merched                                                                         | 25.6                             | 25.7      | 29.7                      | 29.9      |
| Tybiaethau eraill                                                               |                                  |           |                           |           |
| Cyfradd chwyddiant                                                              | 2.6%                             | 2.6%      | 2.6%                      | 2.6%      |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau                                                   | 4.1%                             | 4.1%      | 4.1%                      | 4.0%      |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau                                                  | 2.7%                             | 2.7%      | 2.7%                      | 2.7%      |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun                             | 4.9%                             | 5.9%      | 4.9%                      | 5.9%      |

Mae'r rhagdybiaethau ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Heddlu wedi'u paratoi ar sail cyfartaledd pwysedig o'r grŵp cyfun o gynlluniau a ddefnyddir. Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn sensitif i dybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi'u pennu ar sail newidiadau rhesymol posibl i'r tybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd yn rhagdybio ar gyfer pob newid bod y dybiaeth a ddadansoddwyd yn newid tra bod yr holl dybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r tybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng i ddynion a merched. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau yn rhai o'r tybiaethau fod yn rhyngberthynol. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiadau sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Nid oedd y dulliau a'r mathau o dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod yn newid o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2024/25                             | Effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn y cynllun |                     |
|----------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|---------------------|
|                                                                      | Cynnydd<br>£'000                                            | Gostyngiad<br>£'000 |
| Hirhoedledd (cynnydd o flwyddyn)                                     | 2,968                                                       | 0                   |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.25%)                                 | 6,917                                                       | 0                   |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.25%)                      | 1,940                                                       | 0                   |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun (cynnydd o 0.5%) | 0                                                           | 12,977              |

| Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2024/2025                                  | Effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn y cynllun |                     |
|----------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|---------------------|
|                                                                      | Cynnydd<br>£'000                                            | Gostyngiad<br>£'000 |
| Hirhoedledd (cynnydd o flwyddyn)                                     | 16,314                                                      | 0                   |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.25%)                                 | 39,288                                                      | 0                   |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.25%)                      | 9,683                                                       | 0                   |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun (cynnydd o 0.5%) | 0                                                           | 68,555              |

#### Effaith ar lif arian parod y grŵp

Amcanion y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosibl. Mae'r grŵp wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r cynllun i gyflawni lefel ariannu o 100% dros y tair blynedd nesaf. Cwblhawyd y Prisiad Actiwaraid diweddaraf ar 31 Mawrth 2023 a dangosir manylion cyfraddau cyflogwyr y presennol a'r dyfodol isod:

| Blwyddyn  | Cyfradd cyflogwr |
|-----------|------------------|
| 2026/2027 | 16.8%            |
| 2025/2026 | 16.8%            |
| 2024/2025 | 16.8%            |

## Achosion cyfreithiol

Mewn perthynas ag achos pensiwn McCloud, mae hawlwr wedi cyflwyno hawliadau am iawndal o dan ddwy set weithredol o ymgyfreitha: Aarons a Penningtons. Setlodd adran gyfreithiol y llywodraeth yr hawliadau niwed i deimladau i Aarons ar ran prif swyddogion heb ofyn am unrhyw gyfraniadau ariannol. Gohiriwyd hawliadau am golled ariannol nes i'r rhwymedi ddod i rym o 1 Hydref 2023 ymlaen. Mae setlo'r hawliadau niwed i deimladau ar gyfer Aarons yn gosod cynsail defnyddiol, felly nid oes unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â hawliadau iawndal yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon hyn. Ar 31 Mawrth 2025, nid yw'n bosibl amcangyfrif yn ddibynadwy faint na thebygolrwydd y bydd hawliadau Penningtons yn llwyddiannus, ac felly ni chydabyddir unrhyw rwymedigaeth mewn perthynas â hawliadau iawndal yn y cyfrifon hyn.

### Rhwymedi McCloud

Rhedodd ffenestr rhwymedi McCloud rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Oherwydd y strwythurau buddion gwahanol, mae'r actiwari'n disgwyl i fwyafrif o aelodau cymwys yr heddlu ddewis cymryd buddion y cynllun etifeddol (cynllun 1987 neu gynllun 2006) am y cyfnod unioni. Cafodd lwfans ar gyfer rhwymedi McCloud ei gynnwys gyntaf yn natganiadau pensiwn 2018/2019 fel cost gwasanaeth blaenorol am bedair blynedd o wasanaeth unioni rhwng 2015 a 2019. Priodolwyd y gost gwasanaeth blaenorol hwn yn gymesur i gynlluniau 1987 a 2006. Ar gyfer y blynyddoedd dilynol hyd at 2021/2022, gwnaed lwfans yng nghostau gwasanaeth 2015 ar gyfer cronïad blynyddol gwasanaeth rhwymedi ychwanegol. Nawr bod y ffenestr rhwymedi wedi'i chau, mae'r actiwari wedi symud yr holl rwymedigaethau cysylltiedig â McCloud ar gyfer aelodau cymwys am y cyfnod 2019 i 2022 i'r cynlluniau etifeddol cysylltiedig. Mae hyn yn golygu bod holl rwymedigaethau McCloud yn cael eu dal o fewn y cynllun etifeddol y disgwylir i fuddion gael eu talu ohono. Ar ôl cael y datganiad gwasanaeth adfer neu ar ymddeoliad, bydd aelodau cymwys yn gallu dewis o ba gynllun y maent am dderbyn buddion ohono ar gyfer y cyfnod hwn.

### Effaith ar atebolrwydd pensiwn

Byddai caniatáu i bob aelod cymwys gronni buddion o'u cynllun etifeddol yn ystod y cyfnod unioni yn arwain at gynydd yn rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr heddlu. I Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, mae hyn yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o'r rhai a ymunodd cyn 2012. Yn wreiddiol, amcangyfrifodd actiwariaid y cynllun fod y cynnydd mewn rhwymedigaethau cynllun yn 5.4% neu £85.5 miliwn o gyfanswm rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr heddlu o £1.589 biliwn. Cydnabuwyd hyn yng nghyfrifon 2018/2019 a 2019/2020.

Mae'r ffigurau cyfrifyddu a baratowyd yn 2021, 2022, a 2023 eisoes yn cynnwys lwfans ar gyfer rhwymedi McCloud sy'n unol yn sylweddol â'r meini prawf cymhwysedd ac yn tybio bod aelodau gwarchodedig yn cronni buddion yn eu cynlluniau etifeddiaeth ar hyn o bryd.

Ar gyfer ymarfer 2025, mae lwfans wedi parhau i gael ei gynnwys ar gyfer rhwymedi McCloud sy'n cael ei asesu mewn modd tebyg i'r un a fabwysiadwyd yn flaenorol.

Mesurwyd effaith cynnydd mewn rhwymedigaethau cynllun yn deillio o ddyfarniadau McCloud/Sargeant ar gyfraddau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr fel rhan o werthusiad diwethaf Pensiwn yr Heddlu. Cynyddodd cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr i 35.3% yn 2024/2025 (o 31.0% yn 2023/2024).

Mae effaith cynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n deillio o ddyfarniadau McCloud/Sargeant yn cael ei phennu drwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff heddlu gynnal cronfa pensiwn y telir cyfraniadau swyddogion a chyflogwr iddi ac allan ohoni y gwneir taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad

oes gan Gronfa Bensiwn yr Heddlu ddigon o arian i dalu cost pensiynau yn ystod y flwyddyn, bydd yr ysgrifennydd gwladol yn talu'r swm sydd ei angen i setlo'r diffyg i'r comisiynydd ar ffurf grant atodol llywodraeth ganolog.

#### Dyfarniad pensiynau Virgin Media

Ym mis Mehefin 2023, canfu'r Uchel Lys yn achos Virgin Media fod newidiadau i fuddion aelodau mewn cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio wedi'u contractio allan rhwng 1996 a 2016 yn gofyn am dystysgrif actiwaraidd yn unol ag adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993. Mae newidiadau heb yr ardystiad hwn i'w hystyried yn ddi-rym. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i hawliau gwasanaeth yn y gorffennol a hawliau gwasanaeth yn y dyfodol, ac i newidiadau er anfantais neu fudd i aelodau'r cynllun. Apeliwyd yn erbyn y dyfarniad ym mis Mehefin 2024 ond gwrthodwyd yr apêl.

Mae'r llywodraeth yn ymwybodol, yn dilyn dyfarniad Llys Apêl y llynedd yn achos Virgin Media, fod mwy o ansicrwydd yn y diwydiant pensiynau, ac maent wedi cydnabod bod angen eglurder ar gynlluniau a chyflogwyr sy'n noddi ynghylch rhwymedigaethau cynlluniau a lefelau buddion aelodau er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, mae'r llywodraeth wedi nodi eu bwriad i gyflwyno deddfwriaeth i gwmpasu unrhyw newidiadau i fuddion a allai gael eu heffeithio yn ôl-weithredol ac mae hyn yn golygu na fydd unrhyw effaith ar rwymedigaethau'r dyfodol.

### **38. Rhwymedigaethau digwyddiadol**

#### Ymchwiliad plismona cudd

Diben yr ymchwiliad hwn yw ymchwilio ac adrodd ar weithrediadau cudd yr heddlu a gynhaliwyd gan heddluoedd Cymru a Lloegr yng Nghymru a Lloegr ers 1968. Mae'r ymchwiliad yn archwilio'r cyfraniad y mae plismona cudd wedi'i wneud i fynd i'r afael â throseddau, sut y cafodd ei oruchwyllo a'i reoleiddio a sut y caiff ei oruchwyllo a'i reoleiddio, a'i effaith ar yr unigolion dan sylw – yn swyddogion heddlu ac eraill a ddaeth i gysylltiad â nhw.

Mae rhwymedigaeth wedi'i sefydlu ac ynghyd ag un ar ddeg o heddluoedd eraill, mae cyfreithwyr allanol wedi'u cyflogi i gynrychioli swyddogion sy'n gwasanaethu. Mae cytundeb i Heddlu Dyfed-Powys dalu cyfran o 5% o'r costau paratoi generig yr eir iddynt gan y cwmni cyfreithiol ac mae'r holl gostau hyd yma wedi'u hadlewyrchu yn y cyfrifon refeniw.

Ar hyn o bryd, nid yw'r ymchwiliad wedi symud ymlaen yn ddigon pell i amcangyfrif costau'r dyfodol yn ddibynadwy felly ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn natganiadau cyfrifyddu 2024/2025. Ar hyn o bryd mae'r ymchwiliad yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad terfynol yn 2026.

### **39. Natur a main y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol**

Mae'r comisiynydd wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli'r Trysorlys (fersiwn 2021) ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Darbodus Diwygiedig ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (a ddiweddarwyd yn 2021).

Fel rhan o fabwysiadu Cod Rheoli'r Trysorlys, mae'r comisiynydd yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag offerynnau ariannol. Mae'r comisiynydd hefyd yn cynhyrchu Arferion Rheoli'r Trysorlys, gan nodi'r trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hyn.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'r canllawiau hyn yn

pwysleisio bod blaenoriaeth i'w rhoi i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y comisiynydd, ynghyd â'i Arferion Rheoli'r Trysorlys yn seiliedig ar geisio'r gyfradd enillion uchaf sy'n gyson â'r lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd.

Y prif risgiau a gwmpesir yw:

- **Risg Credyd:** y posibilrwydd y bydd y parti i gontract ased ariannol yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau cytundebol, gan achosi colled i'r comisiynydd.
- **Risg Hylifedd:** y posibilrwydd na fydd gan y comisiynydd yr arian parod i wneud taliadau contract yn brydlon.
- **Risg y Farchnad:** y posibilrwydd y bydd colled ariannol nas cynlluniwyd yn digwydd oherwydd bod newidynnau marchnad megis cyfraddau llog neu brisiau ecwiti yn newid.

### Risg Credyd

#### **Buddsoddiadau**

Mae'r comisiynydd yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu gosod gyda banciau a chymdeithasau adeiladu sydd â teilyngdod credyd digon uchel, fel y nodir yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol sydd ag isafswm statws credyd hirdymor uchel o A-, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol eraill, a sefydliadau heb statws credyd y mae'r comisiynydd wedi cael cyngor buddsoddi annibynnol arnynt.

Ni ellir asesu'n gyffredinol amlygiad uchaf y comisiynydd i risg credyd mewn perthynas â buddsoddiadau 'amhenodol o £30 miliwn gan y bydd y risg y bydd unrhyw sefydliad yn methu â thalu llog neu ad-dalu'r prif swm yn benodol i bob sefydliad unigol. Mae profiad diweddar wedi dangos ei bod yn anghyffredin i endidau o'r fath fethu â chyflawni eu hymrwymadau. Mae risg o ddyled anadferadwy yn berthnasol i holl adneuron y comisiynydd, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar 31 Mawrth 2025 bod hyn yn debygol o grisialu.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth enwol portffolio buddsoddi'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2025, ac yn cadarnhau bod yr holl fuddsoddiadau wedi'u gwneud yn unol â meini prawf statws credyd cymeradwy'r comisiynydd:

| Parti i gontract | Cyfyngiad parti i gontract sengl<br>£'000 | A fodlonwyd meini prawf statws credyd pan wnaed y buddsoddiad? | A fodlonwyd meini prawf statws credyd ar 31 Mawrth 2025? | Balans a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2025 |                            |                            |                             | Dros 12 mis<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|------------------|-------------------------------------------|----------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------|----------------------------------------|----------------------------|----------------------------|-----------------------------|----------------------|-------------------|
|                  |                                           |                                                                |                                                          | Hyd at 1 mis<br>£'000                  | > 1 mis a < 3 mis<br>£'000 | > 3 mis a < 6 mis<br>£'000 | > 6 mis a < 12 mis<br>£'000 |                      |                   |
| Banciau'r DU     | 2,000                                     | Amherthnasol                                                   | Amherthnasol                                             | 0                                      | 0                          | 0                          | 0                           | 0                    | 0                 |
| Bondiau          | 2,000                                     | Amherthnasol                                                   | Amherthnasol                                             | 0                                      | 0                          | 0                          | 0                           | 0                    | 0                 |
| Marchnad arian   | 3,000                                     | Do                                                             | Do                                                       | 6,038                                  | 0                          | 0                          | 0                           | 0                    | 6,038             |
| Awdurdodau lleol | 3,000                                     | Amherthnasol                                                   | Amherthnasol                                             | 0                                      | 0                          | 0                          | 0                           | 0                    | 0                 |
| Llywodraeth y DU | Diderfyn                                  | Amherthnasol                                                   | Amherthnasol                                             | 0                                      | 0                          | 0                          | 0                           | 0                    | 0                 |
| <b>Cyfanswm</b>  |                                           |                                                                |                                                          | <b>6,038</b>                           | <b>0</b>                   | <b>0</b>                   | <b>0</b>                    | <b>0</b>             | <b>6,038</b>      |

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod yr holl adneuron sy'n ddyledus ar 31 Mawrth 2025 yn bodloni meini prawf statws credyd y comisiynydd.

### Dyledion heb eu casglu

Yn gyffredinol, nid yw'r comisiynydd yn caniatáu credyd i ddyledwyr, gan gynnwys balansau sy'n ddyledus gan adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, sefydliadau busnes ac unigolion. Gellir dadansoddi'r ddyled hwyr (ond nid dyledion amhariad) yn ôl oedran fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2024<br>£'000 |                                                                    | 31 Mawrth 2025<br>£'000 |
|-------------------------|--------------------------------------------------------------------|-------------------------|
| 34                      | Llai na mis yn hwyr                                                | 62                      |
| 127                     | Mis i ddau fis yn hwyr                                             | 30                      |
| 354                     | Dau i dri mis yn hwyr                                              | 7                       |
| 219                     | Mwy na thri mis yn hwyr                                            | 92                      |
| <b>734</b>              | <b>Cyfanswm dyled hwyr</b>                                         | <b>191</b>              |
| <b>49</b>               | <b>Gwerth dyledion amhariad amheus</b>                             | <b>40</b>               |
| <b>6.7%</b>             | <b>Amhariad ar ddyledion amheus fel % o gyfanswm y ddyled hwyr</b> | <b>20.9%</b>            |

### Risg Hylifedd

Gall y comisiynydd fenthycia ar gyfraddau ffafriol gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ganfyddedig na fydd y comisiynydd yn gallu codi cyllid i gyflawni ei ymrwymadau o dan offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd y comisiynydd yn gorfod ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fydd cyfraddau llog yn anffafriol.

Mae'r dadansoddiad o aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2024<br>£'000 | Benthyciadau sy'n aeddfedu o fewn                 | 31 Mawrth 2025<br>£'000 |
|-------------------------|---------------------------------------------------|-------------------------|
| 10,386                  | Llai na blwyddyn                                  | 10,610                  |
| <b>10,386</b>           | <b>Cyfanswm y benthyciadau cyfredol</b>           | <b>10,610</b>           |
| 358                     | Un i ddwy flynedd                                 | 0                       |
| 0                       | Dwy i bum mlynedd                                 | 10,000                  |
| <b>358</b>              | <b>Cyfanswm benthyciadau hirdymor dros 12 mis</b> | <b>10,000</b>           |

Mae'r holl symiau masnach a symiau taladwy eraill yn ddyledus i'w talu mewn llai na blwyddyn.

### Risg y Farchnad

#### Risg Cyfraddau Llog

Mae'r comisiynydd yn agored i risg o ran symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y comisiynydd. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y rhwymedigaethau benthyciadau yn gostwng.

- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau'n gostwng.

### **Risg Pris**

Nid yw'r comisiynydd yn buddsoddi mewn cronfeydd cronedig na chyfranddaliadau ecwiti ac felly nid yw'n destun unrhyw risg pris (h.y. y risg y bydd y comisiynydd yn dioddef colled o ganlyniad i symudiadau anffafriol ym mhris offerynnau ariannol).

### **Risg Cyfnewid Tramor**

Nid oes gan y comisiynydd unrhyw asedau na rhwymedigaethau ariannol wedi'u dynodi mewn arian cyfred tramor ac felly nid yw'n agored i golledion sy'n deillio o symudiadau anffafriol mewn cyfraddau cyfnewid.

## **40. Cronfeydd Ymddiriedolaeth**

Mae Sefydliad Elusennol Corfforedig Dyfed-Powys Diogel wedi bod mewn cyfnod o anweithgarwch ac ni dderbyniodd unrhyw roddion na gwario unrhyw arian yn ystod 2023/2024 na 2024/2025.

Gwnaed penderfyniad gan yr ymddiriedolwyr i ddiddymu'r elusen a chytunwyd y byddai'r cyllid yn cael ei glustnodi i'w ddefnyddio gan Gadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu.

Yn dilyn y penderfyniad hwn, ym mis Awst 2024, tynnwyd yr elusen oddi ar Gofrestr Ganolog y Comisiwn Elusennau a chaewyd cyfrif banc Dyfed-Powys Diogel.

Roedd balans banc y sefydliad elusennol corfforedig ar adeg rhoi'r gorau yn £63,700. Rhoddwyd y swm hwn i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a'i drosglwyddo i gronfa wrth gefn referniw sydd wedi'i chlustnodi'n benodol ar gyfer gweithgaredd Cadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu.

**Geirfa termau**

| Term                                                    | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|---------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 2024/2025                                               | Mae hyn yn cyfeirio at y cyfnod a gwmpesir gan y cyfrifon hyn – 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| 2023/2024                                               | Mae hyn yn cyfeirio at y cyfnod a gwmpesir at ddibenion cymharol gan y cyfrifon hyn – 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| Polisiâu cyfrifyddu                                     | Set o reolau a chodau ymarfer a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfrifon.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| Croniadau                                               | Y driniaeth gyfrifo, lle mae incwm a gwariant yn cael eu cofnodi pan gaiff ei ennill neu pan yr eir iddo nid pan fydd yr arian yn cael ei dderbyn neu ei dalu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| Amorteiddiad                                            | Y mesur o draul, defnydd neu ostyngiad arall yn oes ddefnyddiol asedau anniriaethol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| Gwariant cyfalaf                                        | Gwariant ar gaffael neu adeiladu asedau, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol, sydd â gwerth hirdymor i'r grŵp e.e., tir ac adeiladau.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| Derbynebion cyfalaf                                     | <p>Incwm o werthu asedau anghyfredol, na ellir ond ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i ad-dalu dyled sy'n weddill ar asedau a ariannwyd o fenthyciadau.</p> <p>Derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy yw'r derbyniadau cyfalaf hynny nad ydynt wedi'u gosod o'r neilltu at ddibenion penodol ond sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer unrhyw bryniannau cyfalaf.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| Gwerth cario                                            | Gwerth yr ased neu'r rhwymedigaeth sydd wedi'i gofnodi yn y fantolen.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth | Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, un o'r cyrff cyfrifyddu proffesiynol yn y DU. Mae Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn arbenigo yn y gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n gyfrifol am osod safonau cyfrifyddu ar gyfer y gwasanaethau hyn.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| Comisiynu                                               | Y cylch cyfan o asesu anghenion pobl mewn ardal leol, dylunio gwasanaethau, ac yna eu sicrhau.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)                        | Mesur swyddogol o lefel gyffredinol chwyddiant fel y'i hadlewyrchir ym mhris manwerthu nwyddau a gwasanaethau – nid yw'n cynnwys taliadau llog morgais, y dreth gyngor a chostau tai eraill.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Rhwymedigaethau digwyddiadol                            | <p>Mae'r rhain yn bodoli lle:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>bod rhwymedigaeth bosibl yn deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond gan un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y sefydliad; neu</li> <li>mae rhwymedigaeth bresennol yn deillio o ddigwyddiadau'r gorffennol ond nid yw'n cael ei chydabod oherwydd: <ul style="list-style-type: none"> <li>nid yw'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth, neu</li> <li>ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.</li> </ul> </li> </ul> |
| Corfforaeth undyn                                       | Endid cyfreithiol sy'n cynnwys un swyddfa gorfforedig ('unig'), a feddiannir gan un dyn neu fenyw ('unig') h.y. mae'r comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ill dau yn gorfforaethau unigol o dan y Ddeddf Cyffuriau a Chyffuriau (PSRA).                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |

| Term                                 | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|--------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Credydwyr                            | Unigolion neu sefydliadau y mae ar y comisiynydd/prif gwnstabl arian iddynt ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, wedi'u rhannu'n dymor byr (o fewn 12 mis) a hirdymor.                                                                                                                                                        |
| Asedau cyfredol                      | Eitemau y gellir eu trosi'n arian parod yn rhwydd.<br>Yn ôl y confensiwn, mae'r eitemau'n cael eu harchebu trwy gyfeirio at ba mor hawdd yw trosi o'r fath yn arian parod.                                                                                                                                               |
| Rhwymedigaethau cyfredol             | Eitemau sy'n ddyledus ar unwaith neu yn y tymor byr.                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Cost gwasanaeth cyfredol (pensiynau) | Amcangyfrif o wir gost economaidd cyflogi pobl mewn blwyddyn ariannol. Mae'n mesur y rhwymedigaeth lawn yr amcangyfrifir ei bod wedi'i chynhyrchu yn ystod y flwyddyn.                                                                                                                                                   |
| Dyledwyr                             | Unigolion neu sefydliadau y mae arnynt arian i'r comisiynydd/prif gwnstabl ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, wedi'u rhannu'n dymor byr (o fewn 12 mis) a hirdymor.                                                                                                                                                         |
| Cynllun buddion diffiniedig          | Cynllun pensiwn neu fuddiant ymddeol arall heblaw cynllun cyfraniadau diffiniedig. Fel arfer, mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddion yn annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nid yw'r buddion yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun. Gall y cynllun fod wedi'i ariannu neu heb ei ariannu. |
| Dibrisiant                           | Y mesur o'r traul, y defnydd, neu ostyngiad arall yn oes economaidd ddefnyddiol eiddo, peiriannau ac offer.                                                                                                                                                                                                              |
| Gwerth teg                           | Y pris y gellid cyfnewid ased amdano mewn trafodiad hyd braich namyn, lle bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu'r ased.                                                                                                                                                                             |
| Offeryn ariannol                     | Unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti endid arall.<br>Mae offeryn ariannol deilliadol yn gontract ariannol sy'n deillio ei werth o newidiadau mewn asedau neu fynegeion sylfaenol.                                                                           |
| Asedau sefydlog                      | Eitemau fel tir, adeiladau, cerbydau ac eitemau mawr o offer, sy'n rhoi budd i'r comisiynydd/grŵp dros fwy nag un flwyddyn.                                                                                                                                                                                              |
| IAS                                  | Safon Gyfrifyddu Ryngwladol                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| IFRS                                 | Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol.                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| IFRIC                                | Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| Cronfa gyffredinol                   | Prif gronfa refeniw'r comisiynydd/grŵp ac mae'n cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau'r llywodraeth.                                                                                                                                                                          |
| Cyfrifon grŵp                        | Datganiadau ariannol y grŵp, h.y. y ddwy gorfforaeth undyn, wedi'u cyflwyno fel un endid economaidd.                                                                                                                                                                                                                     |
| Amhariad                             | Gostyngiad yng ngwerth ased anghyfredol, o dan ei swm cario yn y fantolen.                                                                                                                                                                                                                                               |
| Asedau anniriaethol                  | Asedau nad oes ganddynt sylwedd ffisegol ond y gellir eu hadnabod a'u rheoli gan y comisiynydd/grŵp e.e. meddalwedd, trwyddedau a phatentau.                                                                                                                                                                             |
| Rhestrau eiddo                       | Swm y stociau nas defnyddir neu nas defnyddiwyd a ddelir gan ddisgwyl eu defnyddio yn y dyfodol ar ddyddiad y fantolen.                                                                                                                                                                                                  |

| Term                                               | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|----------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Prydlesau                                          | Lle telir rhent am ddefnyddio ased am gyfnod penodol o amser. Mae dau fath o brydles yn bodoli: prydlesi cyllid a phrydlesi gweithredu.                                                                                                                                                                                                    |
| Materoliaeth                                       | Eitem a fyddai'n cael ei hystyried yn berthnasol i'r datganiadau ariannol pe bai ei hepgor neu beidio â'i datgelu yn golygu na fyddai'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg mwyach.                                                                                                                                           |
| Darpariaeth isafswm refeniw                        | Y swm doeth y mae'n ofynnol yn statudol i'r comisiynydd/grŵp ei neilltuo o gronfeydd refeniw i dalu am ad-dalu benthyciadau a wnaed i gefnogi buddsoddiad cyfalaf.                                                                                                                                                                         |
| Trethi annomestig cenedlaethol                     | Y trethi annomestig, neu'r trethi busnes, a gesglir gan gynghorau lleol yw'r ffordd y mae busnesau ac eraill sy'n meddiannu eiddo annomestig yn cyfrannu at gost gwasanaethau lleol. Mae'r cyfraddau'n cael eu cronni gan y llywodraeth ganolog a'u hailddosbarthu i gynghorau lleol a chomisiynwyr yr heddlu a throseddu yn ôl fformiwla. |
| Gwerth net ar y llyfrau                            | Y swm a roddir i asedau anghyfredol wrth eu cynnwys yn y fantolen h.y. eu cost hanesyddol neu eu gwerth cyfredol namyn y symiau cronnus a ddarparwyd ar gyfer dibrisiant.                                                                                                                                                                  |
| Gwerth realeiddiadwy net                           | Gwerth marchnad agored ased yn ei ddefnydd presennol (neu ei werth ar y farchnad agored yn achos asedau anweithredol) namyn y treuliau yr eir iddynt wrth wireddu'r ased.                                                                                                                                                                  |
| Cost llog net (Pensiynau)                          | Ar gyfer cynllun buddion diffiniedig, mae hyn yn digwydd yn ystod y cyfnod pan fydd y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased) yn codi o dreigl amser.                                                                                                                                                                                 |
| Asedau anghyfredol                                 | Mae'r rhain yn eitemau fel tir, adeiladau, cerbydau ac eitemau mawr o offer, sy'n rhoi budd dros fwy na blwyddyn.                                                                                                                                                                                                                          |
| Prydlesau gweithredu                               | Mae'n golygu bod y prydlesai yn talu rhent am logi ased am gyfnod o amser sy'n sylweddol fyrrach na'i oes economaidd ddefnyddiol. Mae'r prydlesai yn cadw'r rhan fwyaf o risgiau a gwobrau perchnogaeth.                                                                                                                                   |
| Cost gwasanaeth blaenorol                          | Ar gyfer cynllun buddion diffiniedig, mae'r rhain yn codi o benderfyniadau a wnaed yn y flwyddyn gyfredol ond y mae eu heffaith ariannol yn deillio o flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach.                                                                                                                       |
| CHTh                                               | Talfyriad o Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r CHTh yn gorfforaeth undyn ar wahân a sefydlwyd ar 22 Tachwedd 2012 o dan Ddeddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Cyfeirir ato hefyd fel Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh).                                                                                 |
| Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol | Deddf Senedd y Deyrnas Unedig a drosglwyddodd reolaeth heddluoedd o awdurdodau'r heddlu i gomisiynwyr heddlu a throseddu etholedig.                                                                                                                                                                                                        |
| Praesept                                           | Y swm a godir ac a gesglir gan bedwar awdurdod lleol Dyfed-Powys (Sir Gâr, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys) ac a delir i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu/grŵp.                                                                                                                                                                            |

| Term                                | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Darpariaethau                       | Rhwymedigaeth o amseriad neu swm ansicr. Cydnabyddir darpariaeth os bodlonir y meini prawf canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>mae gan endid rwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;</li> <li>mae'n debygol y bydd angen llif o adnoddau allan sy'n ymgorffori buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth;</li> <li>gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.</li> </ul>                                                                                                                                                                    |
| Benthycia darbodus                  | Benthycia gan awdurdodau lleol heb gymorth ariannol gan y llywodraeth, ond yn unol â chod darbodus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer benthycia awdurdodau lleol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, sefydliad a ariennir gan y llywodraeth. Mae'n rhoi benthyc arian i gomisiynwyr ar delerau penodol fel y gallant brynu eitemau cyfalaf.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| Cronfeydd wrth gefn                 | Balansau sy'n cynrychioli adnoddau a neilltuwyd at ddibenion megis cynlluniau wrth gefn cyffredinol a rheoli llif arian. Cronfeydd a glustnodwyd yw'r rhai a neilltuwyd at ddibenion polisi penodol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| Mynegai prisiau manwerthu           | Mesur swyddogol o lefel gyffredinol chwyddiant fel yr adlewyrchir ym mhpris manwerthu basged o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys costau morgais, y dreth gyngor a chostau cartref eraill.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| Ailbrisio asedau anghyfredol        | Techneg sy'n ofynnol i gofnodi gwir werth asedau cyfalaf a gedwir yn y fantolen yn gywir. Pwrpas ailbrisio yw dod â gwerth marchnad teg asedau anghyfredol i'r cyfrifon.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Cyllideb refeniw                    | Amcangyfrif o ofynion incwm a gwariant blynyddol, sy'n nodi goblygiadau ariannol polisïau a sail y praesept blynyddol i'w godi ar gronfeydd casglu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Grant Cynnal Refeniw                | Grant cyffredinol gan y llywodraeth i gefnogi gwariant awdurdodau lleol (gan gynnwys comisiynwyr) a bennir bob blwyddyn mewn perthynas â lefelau gwariant.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| Ased â hawl ei ddefnyddio           | Mae contract yn brydles, neu'n cynnwys prydles, os yw'r contract yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd am gyfnod o amser. Ased â hawl ei ddefnyddio yw hawl prydlesai i ddefnyddio ased wedi'i brydlesu dros gyfnod y brydles, sy'n cynrychioli'r hawl i gael buddion economaidd o'r ased hwnnw. Fe'i cydnabyddir ar y fantolen ynghyd â rhwymedigaeth brydles, sy'n adlewyrchu rhwymedigaeth y prydlesai i wneud taliadau prydles. Caiff yr ased â hawl ei ddefnyddio ei fesur i ddechrau ar werth presennol taliadau prydles ac wedi hynny caiff ei ddibrisio dros gyfnod y brydles. |
| Uwch-weithiwr                       | Gweithiwr y mae ei gyflog yn fwy na £150,000 y flwyddyn, neu weithiwr y mae ei gyflog o leiaf £60,000 y flwyddyn (a gyfrifir pro rata ar gyfer gweithiwr rhan-amser) ac sy'n bennaeth dynodedig gwasanaeth cyflogedig ac yn brif swyddog statudol. Yn nodweddiadol, prif weithredwr a phrif swyddogion statudol y comisiynydd.                                                                                                                                                                                                                                                                      |

| Term                                                                        | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-----------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (y Cod) | Yn ymgorffori canllawiau yn unol â safonau cyfrifyddu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol y Sector Cyhoeddus a Safonau Egwyddorion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol y DU. Mae'n nodi'r arferion cyfrifyddu priodol i'w mabwysiadu ar gyfer y datganiad o gyfrifon i sicrhau eu bod yn cyflwyno sefyllfa ariannol y cyngor 'yn deg'. Mae gan y cod statws statudol drwy ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 2003. |